



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25





Cynnwys

01	EIN GWERTHOEDD	04
02	EIN GWELEDIGAETH, EIN CENHADAETH, EIN BLAENORIAETHAU A'N FFYRDD O WEITHIO	06
03	CYFLWYNIAD AC UCHAFBWYNTIAU gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes MBE	08
04	UCHAFBWYNTIAU AR DRAWS Y TÎM	10
	YMA I BOB PLENTYN // GOLEUO'R GWIR	12
	ARWR HAWLIAU // HERIWR	18
05	UCHAFBWYNTIAU O'N PANEL YMGYNGHOROL POBL IFANC	26
06	MEYSYDD BLAENORIAETH STRATEGOL	28
07	CERDYN ADRODDIAD: MATERION POLISI AC ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU	32
08	EIN HYMRWYMIADAU	45
09	EIN HAMRYWIAETH	49
10	CRYNODEB O'R WYBODAETH ARIANNOL AR GYFER 2024-25	54
11	BETH NESAF I NI YN 2025-26	56



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

01 EIN GWERTHOEDD

Fel fîm o staff, fe wnaethon ni dreulio amser eleni yn diweddarau ein gwerthoedd. Rydyn ni'n ymdrechu i'w rhoi ar waith ym mhopeth a wnawn, o ran bywyd a gwaith.

1. Rydym yn deg

Rydym yn amddiffyn ac hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bob plentyn a pherson ifanc.



6. Rydym yn ymdrechu i greu newid

Rydym yn defnyddio ein hannibyniaeth a'n pwerau i gyflawni effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.



2. Rydym yn ofalgar

Rydyn ni'n dangos caredigrwydd a thosturi i bawb rydyn ni'n dod ar eu traws trwy ein gwaith.




5. Rydyn ni'n gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth a'r unigrywrydd yn aelodau ein fîm a rhanddeiliaid ehangach ac yn credu ein bod ni'n gryfach gyda'n gilydd.



3. Rydym yn chwilfrydig

Rydym yn cael ein gyrru gan ymdeimlad o ryfeddod am brofiad byw plant a phobl ifanc.



4. Rydyn ni'n onest

Nid ydym yn osgoi sgysiau anodd wrth geisio gwneud yr hyn sy'n iawn.



02 EIN GWELEDIGAETH, EIN CENHADAETH, EIN BLAENORIAETHAU A'N FFYRDD O WEITHIO

Mae'r diagram isod yn cynnwys manylion ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein meysydd blaenoriaeth a'n sbardunau sefydliadol mewnol. Mae hefyd yn cynnwys manylion ein pedair swyddogaeth a sut mae hynny i gyd yn gysylltiedig â'n strategaeth tair blynedd a'n cynlluniau gwaith blynyddol. Gallwch ddarllen mwy am hyn i gyd ar ein gwefan, o dan [yma](#).



03

CYFLWYNIAD AC UCHAFBWYNTIAU

gan Gomisiynydd Plant Cymru,
Rocio Cifuentes MBE

Dyma fy nhrydedd flwyddyn yn y swydd, ac ail flwyddyn ein strategaeth. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gweld rhai llwyddiannau sylweddol ar draws y tîm a'n bod wedi sicrhau rhai newidiadau ysgubol i fywydau plant eleni.



Efallai nad yw pob un o'r uchafbwyntiau rwy wedi'u dewis eleni wedi cael sylw ym mhenawdau'r cyfryngau, ond yn sgîl gwaith fy nhîm ymroddedig o staff, mae rhai newidiadau pwysig wedi digwydd, a fydd yn gwella bywydau plant yng Nghymru a'u gallu i dderbyn eu hawliau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✓ Sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i adolygu eu canllawiau cwynion ysgol, oedd yn cynnwys rhai enghreifftiau hirhoedlog o dorri hawliau plant, a amlygwyd trwy ein gwaith achosion.
- ✓ Gweld testunau oedd wedi dyddio yn cael eu tynnu oddi ar faes llafur CBAC mewn ymateb uniongyrchol i'r hyn glywsen ni gan bobl ifanc yn ein gwaith ar hiliaeth mewn ysgolion.
- ✓ Trwy ein gwaith fel cyfranogwr craidd yn Ymchwiliad Covid 19 y Deyrnas Unedig, fe wnaethon ni sicrhau bod cwestiynau am asesiadau effaith ar hawliau plant a hawliau plant eu hunain yn cael eu codi pan oedd yr ymchwiliad yn edrych ar sut ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pandemig.
- ✓ Ar sail gohebiaeth a anfonwyd at Weinidogion i godi materion a nodwyd yn sgîl ein gwaith achosion a'n hymweladau ysgol, fe wnaethon ni sicrhau adolygiad o'r rheoliadau adeiladu ar gyfer ysgolion arbennig.

- ✓ Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ar gyfer monitro'r rhai sy'n ymrwymo i fod yn rhieni corfforaethol, a chynnwys pobl ifanc wrth graffu ar yr addunedau a wnaed gan sefydliadau – rydyn ni wedi dylanwadu ar hyn trwy ein tystiolaeth i'r Bil, trwy fod yn aelod o'r grŵp ymgynghorol ar Rianta Corfforaethol, a thrwy gysylltu â swyddogion a Gweinidogion.
- ✓ Drwy ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol, mae ein gwaith craffu ar awdurdod lleol a chyrrff cyhoeddus eraill ynghylch methiannau diogelu hanesyddol wedi arwain at newidiadau polisi yn yr awdurdod lleol, adolygiad ymarfer wrth rannu gwybodaeth ynghylch pryderon amddiffyn plant i'r rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac ystyried archwiliad Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) hanesyddol.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud o ran ein blaenoriaethau eraill yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025 ac mae'n cynnwys uchafbwyntiau o bob rhan o'r tîm. I gloi, cawn gyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Lluniwyd y rhain yn fwiadol i fod yn flaenoriaethau allweddol i blant wrth i ni symud i gyfeiriad blwyddyn etholiadol yng Nghymru, ac fe'u lluniwyd o amgylch pedwar dangosydd a ddatblygwyd gan Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer hawliau Sylfaenol, er mwyn diogelu, parchu a hybu hawliau plant.



Rocio Cifuentes MBE
Comisiynydd Plant Cymru

04 UCHAFBWYNTIAU AR DRAWS Y TÎM



Mae ein **tîm o 23 o staff** yn gweithio mewn un tîm mawr i gyflawni ein holl waith. Ond mae gennym ni arbenigeddau hefyd; dyma ein patrwm gwaith o ddydd i ddydd:



Yma i bob plentyn:

mae ein staff cyfranogiad yn cyflawni gwaith ledled Cymru, yn gwrandao ar blant, yn cydweithio â'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, ac yn cefnogi plant ac oedolion i ddysgu mwy am hawliau plant a'u deall yn well.

Goleuo'r gwir:

mae ein staff cyfathrebu yn sicrhau bod y rhai sydd mewn grym yn clywed profiadau plant ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad i hynny. Rydyn ni'n bwrw goleuni ar faterion sy'n effeithio ar blant, ac yn defnyddio pob cyfle i rannu profiadau a barn plant.



Arwr hawliau:

ein swyddogion ymchwiliadau a chyngor sy'n gofalu am ein gwasanaeth annibynnol i blant, eu teuluoedd a phobl broffesiynol sy'n credu bod hawliau plant wedi cael eu torri. Rydyn ni'n gweithio i ddatrys problemau a chyfrannu enghreifftiau o waith achosion yn dystiolaeth o newidiadau ehangach y gallen ni benderfynu sy'n ofynnol i ddiogelu hawliau plant a gwella hawliau plant yng Nghymru.


Herio:

mae ein staff polisi yn dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ystyried a chynnal hawliau plant yn eu holl benderfyniadau. Pan fydd cyrff cyhoeddus yn gwneud addewidion, byddwn ni'n gofalu ein bod ni'n cadw llygad ar y rheiny er mwyn gwneud yn siŵr bod addewidion i blant a phobl ifanc yn cael eu cadw.



YMA I BOB PLENTYN // GOLEUO'R GWIR

Staff yn ein fîm ymgysylltu sy'n gyfrifol am ein holl waith cyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc a'n gwaith cyfathrebu. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod ein fîm o 3 swyddog cyfranogiad yn cyflawni gwaith ledled Cymru, yn gwrandao ar blant, yn cydweithio â'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, ac yn cefnogi plant ac oedolion i ddysgu mwy am hawliau dynol a'u deall yn well. Mae dau aelod o staff cyfathrebu yn sicrhau bod y rhai sydd mewn grym yn clywed am brofiadau plant, ac yn bwrw goleuni ar faterion sy'n effeithio ar blant, gan fanteisio ar bob cyfle i rannu profiadau a barn plant.



Lluniwyd ein holl waith i gyflawni'r uchelgeisiau hyn:

- ✓ Rydyn ni eisiau i fwy o blant gael eu grymuso i dderbyn eu hawliau, trwy fod yn fwy ymwybodol o'u hawliau ac o'r Comisiynydd Plant, a theimlo eu bod yn cael eu clywed
- ✓ Dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol a'u gwella



Dyma sut rydyn ni wedi cyflawni'r uchelgeisiau hyn eleni:

Uchafbwyntiau ein blwyddyn

Ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc

- * Er mwyn i ni fedru mesur ein heffaith, fe wnaethon ni gomisiynu Beaufort Research i fesur ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd Plant ymhlith plant a phobl ifanc, trwy arolwg cenedlaethol cynrychioliadol. Dangosodd y canlyniadau fod ymwybyddiaeth wedi cynyddu ers i ni gynnal gwaith yr arolwg ddiwethaf, yn 2017 (canlyniad 2017: roedd 19% o'r ymatebwyr wedi clywed am CPC // canlyniad 2024: 36% (mor uchel â 61% ymhlith siaradwyr Cymraeg).
- * Buon ni'n gweithio'n uniongyrchol gyda mwy na 9,000 o blant a phobl ifanc, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru (trwy greu cysylltiad personol).
- * Fe wnaethon ni alluogi mwy nag 20,000 o blant a phobl ifanc o bob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed trwy'r Materion Misol, yr arolwg rydyn ni'n ei gynnal bob mis i gasglu barn plant a phobl ifanc ar bynciau llosg. Eleni, rydyn ni wedi casglu barn ar faterion sy'n cynnwys diodydd egni, ffonau clyfar mewn ysgolion, toiledau ysgol ac amser chwarae, ac mae'r profiadau hynny wedi dylanwadu ar ymgynghoriadau polisi allweddol a chael lle ym mhenawdau cyfryngau Wales Online a BBC News yn y cyfryngau.
- * Buon ni'n casglu barn plant o dan 16 oed ar fater tai a digartrefedd, i lywio'n hadroddiad sbotolau: 'Sut mae tai a digartrefedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru' – dyma'r tro cyntaf i unrhyw un gasglu barn y grŵp oed yma ar y mater hwn yng Nghymru.
- * Buon ni'n gweithio ar y cyd ag E-sgol i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar hawliau plant, gan ddenu mwy na 2,000 o ddysgwyr o bob rhan o Gymru.
- * Fe wnaethon ni gyflwyno gwelliannau i'n gwefan, sydd bellach yn cynnwys adran benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, gyda gwybodaeth am y Comisiynydd, am hawliau plant, ac am ein gwasanaeth cynghori, y cyfan ar gael yn hygyrch.



Ein gwaith gyda'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a throstyn nhw

- * Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'n gwaith a'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i weithwyr proffesiynol, fe wnaethon ni lansio ein papur effaith chwarterol. Mae hyn nid yn unig yn rhoi cipolwg ar ein gwaith a'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni i blant a phobl ifanc, ond hefyd yn cynnwys ein meddyliau a thystiolaeth ynghylch materion hawliau plant allweddol i helpu i lywio gwaith dylanwadol pobl eraill. Er enghraifft, amlygodd ein hadroddiad Effaith Chwarterol yn y Gaeaf farn plant a phobl ifanc ar weithredu ynghylch yr hinsawdd, hawliau dynol, a thai.
- * Fe wnaethon ni gyflwyno sesiynau hyfforddi gydag amrywiol weithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymarferwyr byrddau iechyd, yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, a chyda mwy na 70 o weithwyr proffesiynol a ymunodd â ni yn ein cynhadledd yn Llanelwyr ym mis Hydref 2024. Roedden nhw'n dod o amrywiaeth o sectorau, oedd yn cynnwys iechyd, cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r heddlu, ac yn awyddus i ddysgu sut gall dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant (ein Ffordd Gywir) eu helpu yn eu gwaith.
- * Buddsoddi amser staff mewn gwella'r hyn rydyn ni'n ei gynnig ar y cyfryngau cymdeithasol, sydd wedi arwain at y canlynol:
 - Cynnydd o 30.8% yn yr ymateb i gynnwys ar Facebook a chynnydd o 70% yn yr ymweliadau
 - Cynnydd o 280.4% yng nghyrrhaeddiad Instagram, a chynnydd o 70.4% yn yr ymweliadau
 - Lansio tudalen newydd ar LinkedIn, gan greu mwy na 26,000 o argraffiadau
- * Buon ni hefyd yn cymryd rhan mewn 37 o gynadleddau, a gynhaliwyd gan sefydliadau oedd yn cynnwys Mind Cymru, Darpl a Chwarae Cymru.



Ein gwaith i ddylanwadu ar lunwyr penderfyniadau

Tlodi Plant yw'r her fwyaf a phwysicaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru. Yng ngoleuni Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru y llynedd, a chan fod Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei datblygu, rydyn ni wedi galw ar y Llywodraethau y naill ben a'r llall i'r M4 i ganfod ffordd o roi mwy o arian ym mhocedi pobl, er mwyn lliniaru effaith yr argyfwng costau byw, ac amddiffyn plant rhag yr effaith drychinebus y gall tlodi ei chael ar eu bywydau. Ac rydyn ni hefyd wedi nodi'n glir bod gan bob corff cyhoeddus rôl i'w chwarae.

Eleni fe wnaethon ni gyhoeddi 'Dull Seiliedig ar Hawliau Plant o Ddole Tlodi', fframwaith ymarferol er mwyn helpu i roi ffocws i bolisi a phenderfyniadau cyllidebol sy'n rhoi sylw i anghenion y plant mwyaf agored i niwed. Buon ni'n gweithio gydag Arsyllfa Prifysgol Abertawe ar Hawliau Dynol Plant i gynnal gweminar oedd yn trafod hyd a lled y fframwaith newydd.

- * Ar sail ein harolwg cenedlaethol graddfa fawr ein hunain yn hydref 2022, a gwaith pobl eraill, rydyn ni'n gwybod mai iechyd meddwl a llesiant yw un o'r materion pennaf sy'n destun pryder i blant a phobl ifanc. Mae hynny hefyd yn wir am rieni a gofaluwr; ac am y gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi babanod, plant a phobl ifanc.

Ym mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025, buon ni'n cynnal 4 sesiwn grŵp ffocws gyda phobl ifanc; a 3 digwyddiad bord gron gyda phobl broffesiynol ar draws y sector statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc a throstyn nhw.

Roedden ni'n awyddus i drafod enghreifftiau o arfer da, a phrofiadau cadarnhaol o beth sy'n gweithio, yn ogystal â'r heriau ac enghreifftiau o brofiadau gwael. Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith hwn [yma](#).

Rydyn ni wedi creu a chyhoeddi papurau safbwynt polisi ar bynciau allweddol eleni, gan gynnwys iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, teithio gan ddysgwyr yng Nghymru, a'n meddyliau ynghylch 'Cymru i bob Plentyn'. Mae'r papurau hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y dystiolaeth rydyn ni wedi ei chasglu ynghylch amrywiol bynciau, a chipolwg ar y pethau yr hoffon ni eu gweld yn cael eu newid.

Arweiniodd ein gwaith yn defnyddio'r cyfryngau traddodiadol i fwrw goleuni ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd at 438 o wahanol achosion gwahanol lle rhoddwyd sylw i'r sefydliad eleni, fel bod dros 2bn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am ein gwaith.

Ein heffaith

Dyma sampl o'r adborth gawson ni o'r sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd eleni:

 Fe ges i lawer o'r diwrnod i'w ddefnyddio yn fy rôl."

 Hyfforddiant rhagorol gyda chyflwynwyr gwych."

 Sesiwn ddiddorol iawn. Da gwybod am yr arolygon misol i blant a phobl ifanc, a bod modd i deuluoedd unigol ddod i gysylltiad os ydyn nhw eisiau cyngor/cefnogaeth gyda rhywbeth."

Dyma sampl o'r newidiadau mae gweithwyr proffesiynol wedi ymrwymo iddyn nhw yn eu hymarfer eu hunain o ganlyniad i'n digwyddiadau Ffordd Gywir:

 Adolygu faint o fewnbwn mae plant yn ei gael ar ein gwasanaeth a'n datblygiad"

 Rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda chydweithwyr a'u rhoi ar waith yn ymarferol"

 Addasu fy ffordd o feddwl"



Sbotolau Prosiect

Lwc | Luck: profiadau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal; y stori hyd yma

Yn 2024, fe ddaethon ni'n rhan o ddarn o waith oedd yn digwydd ar draws Ewrop gyda Rhwydwaith Ombwdsmyd Plant Ewrop (ENOC), oedd yn canolbwyntio ar Ofal Amgen. Buon ni'n gweithio gyda Grŵp Hawliau Merched Hope o Gastell-nedd Port Talbot i fod yn rhan o Rwydwaith Cynghorwyr Ifanc Ewrop (ENYA) sy'n dod â lleisiau pobl ifanc o bob rhan o Ewrop i waith ENOC. Bu aelodau o'n fîm yn cefnogi dau aelod o Hope i gymryd rhan mewn cynhadledd gyda phobl ifanc eraill o bob rhan o Ewrop yn Slofacia. Ar sail hynny, mae ENOC wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar anghenion gofal a chefnogaeth plant mewn gofal amgen. Ond fe wnaeth ein gwaith gyda'r merched greu cymaint o feddwl, trafod a chynnwys oedd yn ennyn ymateb, nes ein bod ni'n teimlo y gallen ni wneud mwy â'n hargymhellion yng Nghymru, ac o ganlyniad, crewyd arddangosfa Lwc.

Ar 12 Tachwedd 2024, buon ni'n cynnal arddangosfa ryngweithiol, drochol yn y Senedd, ar y cyd â Grŵp Hawliau Merched Hope. Gwahoddwyd dros 100 o bobl i fynd i mewn i 'gartref' gofalwr maeth, yng nghwmni lleisiau pobl ifanc y buon ni'n gweithio gyda nhw oedd â phrofiad o ofal, yn disgrifio'u profiadau o symud lleoliad ac amgylchiadau anghyfarwydd.

Roedd y digwyddiad yn troi o gwmpas pum argymhelliad a grewyd gan Grŵp Hope, sy'n cynnwys hyfforddiant iechyd meddwl a therapiwtig i ofalwyr maeth, a chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd gofal. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys gwaith celf gan eu cymheiriaid ledled Cymru. Gallwch ddarllen mwy am arddangosfa Lwc a'r gwaith yma.

O ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith, rydyn ni eisoes wedi gweld rhai newidiadau, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru yn adolygu Côd Ymarfer Rhan 6 er mwyn sicrhau bod plant yn ymwneud yn fwy â phenderfyniadau am eu gofal. Rydyn ni'n parhau i fod yn rhan weithredol o'r broses honno.
- Cyflwyno proffiliau gofalwyr maeth/llythyrau croesawu, fel bod plant yn dysgu rhywbeth am eu gofalwyr newydd wrth gyrraedd.
- Cymorth cyntaf iechyd meddwl – datblygodd AFKA Cymru 3 gweithdy mewn ymateb i'n hargymhellion:
 - Cefnogi gofalwyr i weithio gydag ardegwyr
 - Cefnogi gofalwyr sydd ag ardegwyr sy'n hunan-niweidio
 - Cefnogi ardegwyr wrth i'w cyrff aeddfedu

ARWR HAWLIAU // HERIWR

Ein Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor sy'n gyfrifol am gyflwyno ein gwasanaeth cyngor a chymorth di-dâl, annibynnol ar hawliau plant.

Mae gennym ni dri Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor penodol sy'n cynnig gwasanaeth cyfrinachol, hygyrch i blant, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol er mwyn codi pryderon, chwilio am help, a derbyn cefnogaeth i gael hyd i ffordd trwy eu hawliau a'r pethau dylen nhw eu derbyn.

Mae'r ddealltwriaeth a gafwyd trwy ein gwaith achosion yn helpu i lywio ein gwaith dylanwadu. Mae hynny'n galluogi'r swyddfa i symud materion sy'n dod i'r amlwg ymlaen gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, gan sicrhau bod achosion unigol yn cyfrannu at newid systemig ehangach. Mae ein gwaith achosion hefyd yn llywio ymatebion y Comisiynydd i ymgynghoriadau, gan helpu i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisi ac ymarfer cenedlaethol.

Dyma sut rydyn ni wedi cyflawni'r uchelgeisiau hyn eleni:

Uchafbwyntiau ein blwyddyn


Cyfanswm nifer yr achosion a drafodwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd **659**. Mae hyn yn gynydd bychan o gymharu â'r **623** o achosion a reolwyd yn ystod 2023–2024.

Mae'r llwyth achosion hwn yn adlewyrchu'r holl achosion a drafodwyd gan y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn ystod y flwyddyn. Mewn llawer o achosion, roedd modd i ni ddatrys y materion ar yr un diwrnod trwy ddarparu cyngor priodol, gwybodaeth, neu gyfeirio ymlaen at y gwasanaeth cywir. Yn y sefyllfaoedd hyn, grymuswyd rhieni, gofalmwr a phobl ifanc i gymryd y camau nesaf ymlaen yn hyderus eu hunain. Mae hynny'n cynnwys achosion o gyswllt untro ac achosion mwy cymhleth lle buon ni'n rhoi cyngor manwl a chefnogaeth.

Lluniwyd ein holl waith i gyflawni'r uchelgeisiau hyn:


- ✓ **Bod mwy o hawliau Plant yn cael eu diogelu a'u gwireddu**
- ✓ **Bod Arfer Lleol a Chenedlaethol yn cael ei herio a'i wella**

Llwyth achosion ein gwasanaeth cyngor a chymorth






Ymlediad daearyddol yr achosion



Awdurdod lleol	Rhif o achosion
1. Blaenau Gwent	5
2. Pen-y-bont ar Ogwr	38
3. Caerffili	20
4. Caerdydd	74
5. Sir Gaerfyrddin	32
6. Ceredigion	19
7. Conwy	19
8. Sir Ddinbych	10
9. Sir y Fflint	14
10. Gwynedd	21
11. Ynys Môn	9
12. Merthyr Tudful	14
13. Sir Fynwy	15
14. Castell-nedd Port Talbot	30
15. Casnewydd	29
16. Sir Benfro	22
17. Powys	26
18. Rhondda Cynon Taf	57
19. Abertawe	48
20. Torfaen	10
21. Bro Morgannwg	36
22. Wrecsam	20
23. Arall	12
24. Anhysbys	54

Dadansoddiad o Faterion:



	%
1. Cymunedol	5
2. Addysg	35
3. Gwasanaethau Cymdeithasol	24
4. ADY/AAA Addysg	15
5. Tu hwnt i'r Cylch Gorchwyl	11
6. Iechyd	5
7. Tai	3
8. Awdurdod Lleol	1
9. Polisi	1

Materion a Thueddiadau Allweddol

Yn ystod y cyfnod adrodd, ymatebodd y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i ystod eang o faterion a godwyd gan blant, teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol.

Ymholiadau cysylltiedig ag addysg oedd yn dal i gynrychioli cyfran fwyaf y llwyth achosion, gan eu bod yn cyfrif am 35% o'r holl faterion a godwyd. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon megis cwynion ysgol, mynediad at gefnogaeth briodol, bwlio, penderfyniadau ynghylch lleoliad, a heriau yn ymwneud â gwaharddiadau a thrafnidiaeth.

Achosion yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol oedd y rhai nesaf oedd yn codi amlaf, ac roedden nhw'n gyfrifol am 24% o'r holl faterion. Roedd y rhain yn cynnwys cwynion am ansawdd gwasanaeth, darparu ac ariannu cefnogaeth, a phryderon ynghylch sefydlogrwydd lleoliadau. Roedd llawer o achosion yn cynnwys eiriolaeth sylweddol i deuluoedd oedd yn ceisio cael hyd i ffordd trwy brosesau statudol.

Roedd 15% arall o'r materion yn ymwneud yn benodol ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd yr ymholiadau'n canolbwyntio ar gynlluniau datblygu unigol (CDUiau), asesiadau, anghydfod ynghylch lleoliadau, pryderon ynghylch darpariaeth, a mynediad at gefnogaeth briodol.

Roedd nifer o'r achosion hyn yn ymwneud â materion lluosog, gan amlgu cymhlethdod cyfrifoldebau amlasiantaeth.

Roedd y categorïau eraill nodedig yn cynnwys:

Materion iechyd (5%) megis mynediad i CAMHS, oedi gyda llwybrau Niwroddatblygiadol, a chwynion ynghylch darparu gwasanaeth; Materion cymunedol (5%) oedd yn ymwneud â chwarae, hamdden a llesiant mwy cyffredinol; Tai (3%), oedd yn cynnwys ymholiadau am fynediad i lety dros dro, tai hygyrch i blant anabl, ac addasrwydd tai i bobl ifanc â phrofiad o ofal; pan gafwyd Achosion y tu hwnt i'n cylch gorchwyl (11%), lle roedd yr ymholiadau'n ymwneud â meysydd megis achosion cyfreithiol preifat, budd-daliadau lles, a materion cyfreithiol i oedolion, roedd angen eu cyfeirio ymlaen yn ofalus.

Mae cwrpas yr ymholiadau yn dangos amrywiaeth yr heriau mae plant a theuluoedd yn eu hwynebu, a gwerth gwasanaeth sy'n ymdrin â materion mewn modd cyfannol, seiliedig ar hawliau. Er nad oes caniatâd i ni ymyrryd mewn rhai achosion, mae ein gweithwyr achosion bob amser yn ymdrechu i roi cyngor.

Tueddiadau sy'n dod i'r Amlwg a Mewnwelediad

Ar hyd y flwyddyn, nodwyd nifer o batrymau allweddol a manau lle datblygwyd dealltwriaeth:

Galw cyson am gefnogaeth cysylltiedig ag addysg: Er mai addysg oedd y categori cyswllt uchaf o hyd, daeth natur yr achosion yn fwy cymhleth. Bu teuluoedd yn gofyn am gyngor yn gyson ynghylch cwynion cysylltiedig â'r ysgol, gwaharddiadau, a'r ddarpariaeth ADY. Rydyn ni'n cael gwybod yn rheolaidd am bryderon ynghylch cysondeb prosesau, ac oedi wrth ddarparu cefnogaeth.

Mae cymhlethdodau ADY yn dal yn thema bwysig: Soniodd llawer o deuluoedd am rwystrau wrth gael hyd i ffordd drwy brosesau CDU, anghysondebau wrth gymhwyso canllawiau statudol, ac anghydfod ynghylch lleoliadau a darpariaeth priodol.

Roedd llawer iawn o'r pryderon yn ymwneud ag ymateb y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig lleoliadau'n methu, oedi gydag

asesiadau, a mynediad at eiriolaeth i blant mewn gofal.

Ymholiadau y tu allan i'n cylch gorchwyl: Er gwaethaf cyfathrebu clir ynghylch cwrpas y gwasanaeth, roedd nifer sylweddol o'r rhai a gysylltodd â ni yn dal y tu allan i'n cylch gorchwyl. Roedd y rhain yn aml yn ymwneud ag achosion llys, cymorth cyfreithiol, ac anghydfod teuluol. Bu'r fîm yn gweithio'n galed i gynnig cyngor parchus ynghylch ailgyfeirio a symud ymlaen.

Mae'r cyswllt uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn dal yn gyfyngedig: Er i ni dderbyn peth cyswllt uniongyrchol, mae'r rhan fwyaf o ymholiadau'n dal i ddod gan rieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol. Pan fu plant a phobl ifanc yn cysylltu â ni, fe wnaethon ni sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed trwy ddull ymatebol.

Dulliau Cyfathrebu:


Parhaodd y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau cyswllt yn ystod y flwyddyn. Y dull cyswllt mwyaf cyffredin oedd dros y ffôn, oedd yn cyfrif am dros hanner yr holl ymholiadau (359 o achosion). E-bost oedd yr ail lwybr a ddefnyddiwyd amlaf (269 o achosion), ac roedd y cyswllt wyneb yn wyneb neu trwy lythyr yn gyfyngedig.

O ran ffynonellau atgyfeirio, rhieni oedd y grŵp cyswllt amlaf o hyd, gydag aelodau o'r teulu estynedig, aelodau o'r cyhoedd, a gofalwyr maeth yn dilyn. Er bod cyswllt uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn dal yn gymharol brin, cadwodd y gwasanaeth at ddull gweithredu plentyn-ganolog wrth ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gysylltodd â'r gwasanaeth wedi cael eu cyfeirio atom ar lafar, sy'n dangos bod gennym ni enw da o ran ymddiriedaeth ac eiriolaeth anffurfiol mewn cymunedau. Fodd bynnag, cafwyd hefyd gryn nifer o atgyfeiriadau o ffynonellau proffesiynol, oedd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, athrawon, darparwyr eiriolaeth, a swyddogion etholedig, ac roedd hynny'n amlygu annibyniaeth broffesiynol y gwasanaeth a'i ddull gweithredu cytbwys.


Mae'r data hwn yn dangos gwerth parhau gyda gweithgareddau estyn allan ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, yn ogystal â phwysigrwydd ymateb ar draws nifer o sianeli cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion mynediad amrywiol.

Roedd profil y bobl ifanc hyn yn amrywio o ran oed, cyd-destun addysg, a statws byw a chyfreithiol:




- Y gyfran fwyaf o blant y buon ni'n eu cefnogi oedd rhai 10-14 oed (187 o blant)
- Yn dilyn hynny roedd rhai 5-9 oed (142 o blant)
- Roedd 122 arall rhwng 15 ac 19 oed
- Roedd 34 o blant rhwng 0 a 4 oed
- Roedd nifer bach o bobl ifanc rhwng 20 a 24 oed (2)

Cyd-destun Addysg – yn achos y rhai a ddatgelodd yr wybodaeth honno i ni



- Roedd y mwyafrif mewn ysgol uwchradd (128) neu ysgol gynradd (131)
- Roedd cryn nifer yn cael cefnogaeth tra'u bod mewn lleoliadau ADY arbenigol (30), yn cael Addysg Gartref neu EOTAS (10)
- Nid oedd gan rai plant leoliad ar hyn o bryd (16)



- Roedd dros hanner y bobl ifanc (252) yn byw gyda'u rhieni, tra bod 109 ar aelwydydd un rhiant
- Roedd 61 o blant mewn lleoliadau maeth, tra bod niferoedd llai mewn lleoliadau preswyl (15) neu hosteli (6)



Canlyniadau ac effaith

Mae cwmpas eang y gwaith achosion a wnaed eleni yn dangos prif swyddogaeth y Tîm Cyngor a Chymorth, sef galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall eu hawliau.

Mewn llawer o achosion, bu ein hymyrraeth amserol o gymorth i sicrhau mynediad at addysg, i eiriol o blaid lleoliadau priodol, i herio arferion gwahaniaethol, ac i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc nid yn unig yn cael eu clywed, ond bod gweithredu yn sgîl hynny. Er enghraifft, arweiniodd ein cyfraniad at fwy o gefnogaeth gan ysgolion yn dilyn gwaharddiadau, sicrhawyd bod Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau) yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a galluogwyd mynediad at eiriolaeth neu gyngor cyfreithiol lle nad oedd hynny ar gael fel arall. Mewn cyd-destunau amlasiantaeth cymhleth, roedden ni'n darparu eglurder a chyfeirbwyntiau, gan alw awdurdodau lleol i gyfrif a herio arfer gwael yn ôl y galw.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, bu'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn rheoli 659 o achosion. O'r achosion a ddaeth i ben:

- Roedd dros 60% o'r achosion yn cynnwys darparu cyngor a chymorth, grymuso teuluoedd trwy eu cyfeirio ymlaen, rhannu gwybodaeth, a chynnal trafodaeth gefnogol.
- Roedd 30% yn galw am ymyrraeth weithredol gan y tîm, a chafwyd datrysiaid llwyddiannus trwy ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus neu esgaladu pryderon.

Cariwyd yr 80 achos oedd yn weddill ymlaen i'r flwyddyn adrodd nesaf.

Roedd yr ymyriadau hyn yn aml yn arwain at welliannau ymarferol ar unwaith – megis rhoi trafnidiaeth i'r ysgol yn ôl yn ei le, hwyluso symudiadau dan reolaeth, neu gadw cefnogaeth hanfodol trwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Y tu hwnt i ganlyniadau unigol, mae ein hymgysylltu yn parhau i lywio newid ehangach i bolisi a systemau.

Mae llawer o deuluoedd yn teimlo'n llai ynysig ac wedi'u grymuso'n fwy ar ôl bod mewn cysylltiad â'n tîm. Mae effaith ein gwaith yn weladwy, nid yn unig yn y canlyniadau a geir, ond hefyd yn y sicrwydd a'r urddas a roddir i'r rheiny sy'n cael hyd i ffordd trwy systemau sy'n aml yn heriol a chymhleth.

Astudiaethau achos

Astudiaeth achos 1

Cysylltodd rhiant â'n gwasanaeth Cyngor a Chymorth gyda phryderon difrifol ynghylch bwlio parhaus roedd eu plentyn yn ei wynebu mewn ysgol uwchradd. Roedd y plentyn wedi cael ei dargedu gan grŵp o gyfoedion dros gyfnod estynedig, ac wedi dioddef sarhad llafar ac eithrio cymdeithasol. Er bod y rhiant wedi codi'r materion hyn gyda'r ysgol, roedden nhw'n teimlo bod yr ymatebion yn annigonol ac yn anghyson, ac o ganlyniad roedd eu plentyn mewn trallod ac yn fwyfwy amharod i fynd i'r ysgol.

Roedd y rhiant hefyd yn pryderu nad oedd camau gweithredu'r ysgol i weld yn cyfateb i'r polisi gwrthfwlio nac i ddyletswyddau diogelu ehangach yr awdurdod lleol. Roedd y sefyllfa wedi gwaethygu i fan lle roedd y rhiant yn teimlo nad oedd cynllun clir ar waith i gadw eu plentyn yn ddiogel, nac i roi sylw i'r ymddygiad bwlio.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth oedd ar gael, fe wnaethon ni gysylltu â'r awdurdod lleol ac esgaladu'r achos i'r Cyfarwyddwr Addysg er mwyn cael eglurhad ar y camau oedd yn cael eu cymryd i sicrhau lles y plentyn.

Roedd ein gohebiaeth yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu ar frys i ddiogelu, cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd, a hawl y plentyn i gael addysg ac i fod yn ddiogel, fel y diffiniwyd yn CCUHP.

Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai mesurau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynllun cefnogi diwygiedig, monitro mwy gofalus gan staff yn ystod adegau peryglus o'r dydd, ac ymrwymiad i wella'r cyfathrebu â'r teulu. Cadarnhaodd y rhiant yn ddiweddarach fod yr ysgol wedi dechrau ymdrin â'r sefyllfa mewn modd mwy strwythuredig ac ymatebol, a bod llesiant emosiynol eu plentyn wedi gwella.

Mae'r achos hwn yn amlygu sut gall esgaladu priodol, eiriolaeth ar sail hawliau, a disgwyliadau clir ynghylch dyletswyddau diogelu, gyfrannu at ganlyniadau mwy effeithiol i blant a theuluoedd. Mae hefyd yn dangos pwysigrwydd gweithio'n adeiladol gydag uwch swyddogion awdurdod lleol os bydd teuluoedd yn teimlo nad yw eu pryderon wedi cael eu clywed.

Astudiaeth achos 2

Cysylltodd ysgol â'r fîm Cyngor a Chymorth i godi pryderon diogelu difrifol a pharhaus ynghylch plentyn oedd eisoes yn destun prosesau amddiffyn plant. Teimlai'r staff, er gwaethaf atgyfeiriadau niferus a mewnbwn proffesiynol, nad oedd y pryderon yn cael blaenoriaeth briodol, ac roedden nhw'n dal i bryderu'n fawr am ddiogelwch a lles y plentyn.

Gwrandawodd y fîm ar y pryderon a derbyn crynodeb ysgrifenedig gan yr ysgol, a rannwyd wedyn yn uniongyrchol gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant. Mewn ymateb, trefwyd cyfarfod o'r gweithwyr proffesiynol Haen 1,

yn unol â gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer datrys gwahaniaeth barn broffesiynol.

Mae'r achos hwn yn amlygu rôl y fîm yn cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu cydnabod yn llawn ac yn arwain at weithredu. Mae hefyd yn amlygu sut gall esgaladu clir, uniongyrchol gyflawni rôl allweddol o ran sicrhau bod hawliau a diogelwch plant yn dal yn ganolog pan fydd gweithwyr proffesiynol yn anghytuno].

Astudiaeth achos 3

Cysylltodd rhiant â'r fîm Cyngor a Chymorth gyda phryderon difrifol oherwydd bod ymddygiad un o'u plant yn rhoi siblingiaid iau mewn perygl. Ar adeg y cyswllt, roedd ymchwiliad Adran 47 ar waith, ac roedd y plant iau wedi symud i aros gydag aelodau eraill o'r teulu dros dro er diogelwch. Mynegodd y rhiant eu bod yn cael trafferth ymdopi, a'u bod yn chwilio am gefnogaeth frys, gan gynnwys y posibilrwydd o drefnu rhywle arall i'r plentyn hyn fyw.

Gwrandawodd y fîm ar bryderon y rhiant, a chyda chaniatâd, fe wnaethon nhw gysylltu â'r awdurdod lleol i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn llawn. Fe wnaethon ni godi pryderon ychwanegol hefyd ynghylch diffyg mynediad y plentyn at addysg a chefnogaeth llesiant emosiynol.

Wedi i ni ymwneud â'r achos, cadarnhaodd yr awdurdod lleol fod asesiad newydd wedi cael ei gwblhau, a bod bwriad i gynnal cyfarfod amddiffyn plant. Cytunwyd ar becyn diwygiedig o gefnogaeth—gyda ffocws ar addysg, ymddygiad, a llesiant—oedd yn cynnwys cyfuniad o gyfleoedd galwedigaethol a thiwora arbenigol. Hefyd datblygwyd cynllun diogelwch i helpu'r teulu i reoli risgiau yn y cartref.

Mae'r achos hwn yn dangos sut gall y fîm gefnogi teuluoedd i godi pryderon diogelu mewn modd adeiladol, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ymateb, bod y risg yn derbyn sylw, a bod cynlluniau cefnogi wedi'u teulwra yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r holl blant dan sylw.

Astudiaeth achos 4

Cysylltodd grŵp o ddisgyblion â'r fîm Cyngor yn codi pryderon ynghylch mynediad at doiledau ysgol a diffyg cyflenwadau hylendid fel papur tŷ bach, sebon dwylo, a thywelion dwylo. Dywedwyd bod y toiledau dan glo, gyda mynediad cyfyngedig, a bod hynny'n anghyfleus ac yn eu gwneud yn anghyfforddus.

Oherwydd natur y pryderon, penderfynodd ein fîm gymryd camau i sicrhau bod hawliau'r plant i hylendid, urddas a chyfleusterau priodol yn cael eu parchu. Fe wnaethon ni gysylltu â'r pennaeth gweithredol i godi'r materion hyn, gan sicrhau bod pryderon y disgyblion yn cael eu cyfleu'n glir, heb enwi unigolion penodol.



Wedi i ni ymwneud â'r achos, ymatebodd y pennaeth yn brydlon, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- ✦ Roedd yr ysgol wedi bod yn wynebu heriau staffio oherwydd bod dau o'r glanhawyr wedi ymddiswyddo, ac roedd hynny wedi cael effaith dros dro ar argaeledd cyflenwadau hylendid.
- ✦ Roedd y broblem cyflenwadau hylendid wedi cael ei datrys, ac roedd y fîm glanhau newydd bellach yn ei le.
- ✦ Roedd polisi'r ysgol yn sicrhau bod toiledau'n hygyrch bob amser. Cyn dechrau'r diwrnod ysgol, yn ystod amser egwyl a chinio, ac ar hyd y gwersi, roedd aelod o staff yn agos at y toiledau er mwyn monitro mynediad ac i sicrhau bod disgyblion yn gallu defnyddio'r cyfleusterau yn ôl y galw.

Er mwyn cefnogi hygyrchedd ymhellach, ymrwymodd y pennaeth i wirio gyda phennaeth y campws, i sicrhau bod y polisi hwn yn parhau'n effeithiol, a bod unrhyw faterion pellach yn derbyn sylw.

O ganlyniad i'n hymyrraeth:

- ✦ Cafodd disgyblion eu sicrhau y bydden nhw'n cael mynediad i'r toiledau ac at gyflenwadau hylendid yn ôl y galw.
- ✦ Rhoddodd yr ysgol fesurau ar waith i sicrhau gwell cyfathrebu â disgyblion ynghylch ei pholisi mynediad i doiledau.

Roedd yr achos hwn yn dangos ymrwymiad ein swyddfa i eiriol dros hawliau a lles plant, gan sicrhau bod pryderon yn derbyn sylw'n brydlon ac ar y cyd â'r ysgol.

05

UCHAFBWYNTIAU O'N PANEL YMGYNGHOROL POBL IFANC

Mae ein panel ymgynghorol pobl ifanc yn bodoli i roi cyngor annibynnol i'r tîm, i graffu arno, ac i'w herio. Mae'r aelodau'n gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac fel seinfwrdd i'r tîm.



Eleni, fe fuon ni'n peilota ffordd newydd o weithio gyda'n panel pobl ifanc, sydd wedi golygu ein bod yn gweithio'n agos gyda'n Hymgynghorwyr Cymunedol (oedd yn cael eu galw'n Llysgenhaddon Cymunedol o'r blaen). Rydyn ni wedi rhoi cyfle i'n hymgynghorwyr cymunedol fod yn rhan o drafodaethau ein Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc, er mwyn helpu i sicrhau bod ein panel mor gynhwysol â phosibl, a'n bod ni'n clywed profiadau a barn pobl ifanc sydd o bosibl wedi'u tangynrychioli yn ein paneli ymgynghorol cenedlaethol.

Yn ein cyfarfod diwethaf gyda nhw, fe wnaethon ni ofyn y cwestiynau canlynol:

Ydy eich dealltwriaeth o rôl Rocio fel Comisiynydd Plant a gwaith ei tîm wedi gwella?



Ydy eich dealltwriaeth o hawliau plant wedi gwella?



Wnaeth y sesiwn eich helpu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed?



Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am fod yn rhan o banel ymgynghorol y Comisiynydd?

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:



Bod pobl yn gwrando

Dysgu mwy gan grwpiau eraill a dysgu sut mae eu hawliau ysgol nhw'n gweithio

Dysgu pethau newydd

Cwrdd â ffrindiau newydd

Teimlo mod i'n cael fy nghlywed, yn hytrach na bod yn rhywbeth wrth fynd heibio

Cael bod yma

Rydw i'n mwynhau dysgu yn y math yma o gyfarfodydd. Galla i hefyd fynegi fy marn, ac mae modd i'm llais gael ei glywed.



06

MEYSYDD BLAENORIAETH STRATEGOL



I ddechrau, rydyn ni wedi amlygu rhai meysydd gwaith allweddol y buon ni'n ymwneud â nhw yng nghyswllt ein meysydd blaenoriaeth strategol, gan ddangos cwrpas eang y gwaith a wnaed a'n gwahanol ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru.



Iechyd meddwl

- Fel maes blaenoriaeth parhaus i'r Comisiynydd yn ystod 2024/25, fe wnaethon ni gyhoeddi papur safbwynt polisi ar iechyd meddwl a llesiant eleni - www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/safbwyntiau-polisi/iechyd-meddwl/
Mae'r papur yn cynnwys barn plant a gweithwyr proffesiynol ynghylch heriau sydd eisoes yn bodoli a pha newidiadau sy'n angenrheidiol, enghreifftiau o arfer da, ac argymhellion. Hefyd casglwyd mewnwleidiad o gyfres o sesiynau bord gron a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol, a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc i drafod pwnc Iechyd Meddwl a Llesiant, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025.
- Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethon ni ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth iechyd meddwl a llesiant newydd i bob oed. Ein galwad allweddol yn yr ymateb hwnnw oedd bod angen cynllun cyflawni sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion babanod, plant a phobl ifanc.
- Hefyd ym mis Mehefin 2024, fe wnaethon ni gynnal arolwg gyda phlant a phobl ifanc am eu llesiant ar-lein, lle clywsom ni gan fwy na 1,200 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru. Mae'r arolwg yn dangos mai 39% yn unig o blant a phobl ifanc sydd wedi riportio rhywbeth oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel, yn bryderus, neu wedi ypsetio i ap/wefan/gêm, ac mai 32% yn unig o blant a phobl ifanc oedd yn teimlo bod yr ap/y wefan/y gêm yn cymryd eich pryder o ddifri.



Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydyn ni wedi mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio ADY er mwyn arsylwi. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar bolisi ADY, gan gynnwys yr angen am wneud ADY yn flaenoriaeth addysg genedlaethol, a hybu cydweithio rhwng asiantaethau lluosog.

Ar sail ein tystiolaeth o waith achosion, cynhyrchwyd fideo yn dangos profiadau rhieni y mae gan eu plant anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y sgrysiâu'n cynnwys themâu rydyn ni'n gwybod eu bod yn bresennol ar draws y wlad yn achos rhieni sy'n ceisio sicrhau addysg briodol i'w plant, gan gynnwys system y mae'n anodd cael hyd i ffordd drwyddi, cynnydd araf, a'r teimlad bod popeth yn frwydr. Rydyn ni wedi rhannu'r dystiolaeth hon gyda Llywodraeth Cymru i lywio'u hadolygiad.

Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno ymateb yn achos Bil Addysg Gymraeg (Cymru), yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu amserlen glir ar gyfer datblygu ymyriadau cenedlaethol. Yn ein ymateb, fe wnaethon ni alw hefyd am gyhoeddi cynlluniau manwl ar draws meysydd allweddol megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau, a dysgu proffesiynol.



Tlodi plant

- Mae'r Comisiynydd wedi gwneud datganiadau rheolaidd a chyfweiliadau yn y cyfryngau ynghylch tlodi plant eleni, gan gynnwys galwadau ynghylch yr angen am Daliad i Blant yng Nghymru a'r ffaith bod dileu'r rheolau budd-dâl 2 blentyn a'r cap ar lefelau budd-dâl yn flaenoriaeth, yn ogystal â'r tocynnau bws am £1 i bobl ifanc 16-21 oed.
- Mae'r erthyglau canlynol a'r darnau sylwebaeth hyn gennym wedi cael eu cyhoeddi -
www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-68056286
www.walesonline.co.uk/news/politics/child-came-school-single-carrot-28280821
nation.cymru/opinion/how-well-is-wales-protecting-childrens-rights/
www.bbc.co.uk/news/uk-wales-67238317
www.walesonline.co.uk/news/education/wales-failing-children-expecting-one-30447614
www.walesonline.co.uk/news/education/one-major-problem-free-school-29051432
- Rydyn ni wedi parhau'n arsylwyr gweithredol yng Ngrŵp Cyfeirio Allanol Llywodraeth Cymru ar gyfer eu strategaeth tlodi plant, yn cynghori ar yr angen am fonitro ac yn adrodd am effeithiolrwydd y strategaeth o ran ymwneud yn uniongyrchol â'r camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd a'u hadlewyrchu. Rydyn ni wedi dadlau bod deall beth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran ymdrin â thlodi plant yn allweddol, er mwyn i arian cyhoeddus fedru cael ei wario ar y dulliau mwyaf effeithiol, fel bod modd helaethu mentrau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi, a chyrraedd pawb sydd mewn angen.

- Rydyn ni wedi ymuno â'r gweithgor ar Symleiddio Budd-daliadau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y galwadau yn ein hadroddiad 'Siarter ar gyfer Newid' yn 2019, ar dacio tlodi plant, yn cael eu symud ymlaen. Yn benodol mae hyn yn ymwneud â phasbortio neu gofrestru pobl gymwys yn awtomatig ar gyfer pob budd-dâl perthnasol, unwaith bydd gan awdurdod lleol dystiolaeth o'u hamgylchiadau ariannol. Fel rhan o fesurau niferus i dacio tlodi plant, dylai rhoi arian ym mhocedi teuluoedd fod yn flaenoriaeth allweddol, ac mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei wneud i alluogi teuluoedd i dderbyn popeth y gallan nhw ei hawlio.
- Rydyn ni wedi cynnal cyfarfodydd lluosog gyda swyddogion, ac wedi cyflwyno crynodeb o dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch lleisiau a phrofiadau plant yng Nghymru i Dasglu Gweinidogol y Deyrnas Unedig ar dlodi plant. Parhaodd y gwaith ar hyn ar hyd 2025, tuag at y nod o gyhoeddi Strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd wedi cael ei oedi. Mae peth o'r dystiolaeth buon ni'n ei chynnwys yn dangos bod 45% o blant 7-11 oed yn ein harolwg wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n pryderu am gael digon i'w fwyta, a bod nifer sylweddol o blant ac oedolion yn pryderu am gostau eraill cysylltiedig ag anghenion sylfaenol. Rydyn ni hefyd yn trafod ein gwaith ymgysylltu â phlant i lywio Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag effaith y setliad datganoli ar dacio tlodi plant yng Nghymru.
- Gan weithio ar y cyd ag Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant, a'r Ganolfan Gyfreithiol i Blant, fe fuon ni'n datblygu ac yn cyhoeddi Y Ffordd Gywir: Dull seiliedig ar hawliau plant o dacio tlodi sy'n eistedd ochr yn ochr â chyhoeddiadau a baratowyd eisoes gan ein partneriaid. Mae ein hatodiad yn rhoi arweiniad ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant (CRA) o ymdrin â thlodi plant – mae'n amlinellu fframwaith ymarferol sy'n cefnogi cyflawni hawliau plant. Mae'n cynnig ffordd gyfannol o weithio i gyrff cyhoeddus, gan gefnogi gweithrediad egwyddorol ac ymarferol holl hawliau plant, gan gynnwys yr hawliau sy'n effeithio ar dlodi plant.
- Bu'r Comisiynydd yn annerch yng nghynhadledd tlodi plant Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024, ac yn pwysu am fwy o weithredu i sicrhau mynediad awtomatig at hawliau i fudd-daliadau yng Nghymru yn arbennig, a mwy o ffocws ar fonitro effaith y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.



Cydraddoldeb

- Mae cydraddoldeb wedi parhau'n faes blaenoriaeth i'r Comisiynydd yn 2024/25, gyda ffocws penodol ar ddeall profiadau plant ag anableddau.
- Fe wnaethon ni gomisiynu adroddiad er mwyn deall ymhellach brofiadau plant a phobl ifanc anabl sy'n byw yng Nghymru, "Sut brofiad yw bod yn blentyn anabl yng Nghymru yn 2024? Beth rydyn ni'n gwybod, a beth mae angen i ni wybod?" Ymhlith canfyddiadau'r adroddiad mai'r ffaith fod plant a phobl ifanc 7-18 oed sydd ag anableddau yn pryderu mwy na phlant a phobl ifanc heb anableddau mewn nifer o gategorïau, a bod plant ag anableddau a phobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn fwy tebygol o brofi bwlio na phlant a phobl ifanc heb anableddau.
- Fe wnaethon ni gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i gefnogi eu hymdrechion i ddiweddarau pecyn offer a thempled i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u dyletswydd i gyhoeddi eu Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'r canllawiau statudol diwygiedig ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae 'Cymru – Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae' yn cynnwys pennod ddatblygedig ar ymgynghori, cyfranogiad ac ymgysylltu, gan gynnwys cyfeiriad at ein fframwaith a'n canllawiau Ffordd Gywir.
- Ym mis Mawrth 2025, fe gynhalion ni gynhadledd ar hawliau plant yn Llanelwy, gogledd Cymru, lle buon ni'n archwilio'r dyletswyddau penodol sydd ar gyrff cyhoeddus i gynnwys plant a phobl ifanc a gweithio gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i hybu a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a allai effeithio arnyn nhw, a Phennod 5 o'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021, sy'n gofyn bod awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn,

a Chonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Roedd y digwyddiad yn arddangos sut gallai dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ddarparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn a sicrhau cyfranogiad effeithiol pob plentyn a pherson ifanc.

- Ar gyfer y digwyddiad hwn, buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam, a grŵp o bobl ifanc anabl o Ysgol St Christopher, Wrecsam, i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant naratif cyhoeddus wyneb yn wyneb, er mwyn eu cefnogi i gyflwyno anerchiad dull TEDx ar destun 'llais'. Mae'r dull o weithio gyda phobl ifanc a'r neges a rannwyd ganddynt wedi cael sylw mewn erthyglau newyddion. Er enghraifft: Cylchgrawn Haf Plant yng Nghymru 2025 English by childreninwales - Issuu
- Rydyn ni'n gwybod mai plant a phobl ifanc anabl sy'n wynebu rhai o'r rhwystrau pennaf i addysg. O ran plant anabl, mae ein gwaith eleni ym maes addysg wedi cynnwys:
 - o pwysu ar y Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol i ystyried hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc anabl wrth iddo geisio datrys problem barhaus absenoldeb;
 - galw Llywodraeth Cymru i gyfrif ynghylch cyflawni'r argymhellion oedd yn deillio o Ymchwiliad Pwyllgor Plant y Senedd i weld a oedd plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal i addysg;
 - wrth ymateb i fater oedd yn codi o'n gwaith achosion ynghylch y diffyg darpariaethau cyfreithiol sy'n llywodraethu maint a chynllun ysgolion arbennig, fe wnaethon ni alw ar Lywodraeth Cymru i symud ymlaen ar frys i adolygu a chryfhau'r canllawiau a fyddai'n helpu i gynyddu mynediad i'r ysgol ar gyfer dysgwyr anabl. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn symud hyn ymlaen, a byddwn ni'n gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod adolygu'r canllawiau 'Cynllunio i Gynyddu Mynediad Disgyblion Anabl i Ysgolion' yn ymdrin ag anghenion plant a phobl ifanc.
 - Ysgrifennu at Cymwysterau Cymru i fanylu ar ein pryderon ynghylch y penderfyniad i atal cyflwyno TGAU yn laith Arwyddion Prydain, er mwyn deall beth oedd yr heriau ymarferol, a sut bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu'n barhaus. Rydyn ni hefyd wedi darparu tystiolaeth i gefnogi'r Bil BSL yn y Senedd.

07

CERDYN ADRODDIAD: MATERION POLISI AC ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU

Yn ogystal â'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, rydyn ni hefyd yn defnyddio'r adroddiad blynyddol hwn i godi materion cyfoes, ar sail ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Rydyn ni hefyd wedi awgrymu nifer o argymhellion i roi sylw i'r materion hynny.



Addysg – cwynion ysgol

Wrth i ni adolygu tueddiadau yn ein gwaith achosion, nodwyd 83 o achosion oedd yn ymwneud â chwynion ysgol mewn un flwyddyn academaidd, a chafwyd bod 25% o'r achosion hynny yn ymwneud â phroblemau o ran prosesau a chanlyniadau.

Roedd y problemau'n amrywio, o fynediad i doiledau i fwlio, ac roedd rhai teuluoedd wedi cysylltu â CPC oherwydd bod ein manylion wedi'u cynnwys ym mhroses gwynion yr ysgol, ac roedden nhw'n meddwl y dylen nhw droi aton ni fel cam nesaf.

Ein nod cychwynnol ar gyfer y prosiect oedd helpu teuluoedd i gael hyd i ffordd drwy'r prosesau, ond pan aethon ni ati i edrych ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, fe ddaethon ni o hyd i fannau dryslyd oedd yn gwrthddweud ei gilydd. Un agwedd oedd yn destun pryder arbennig oedd y modd o drin cwynion dysgwyr, gan fod y polisi enghreifftiol yn dweud bod cwynion gan ddysgwyr i gael eu trin yr un fath â chwynion gan oedolion/roddwyr gofal, ond yna'n cyflwyno proses wahanol i ddysgwyr ei dilyn. Mae'r oedolion yn ymuno â'r broses ar Gam A ar unwaith, i godi pryderon gydag unrhyw athro, ond mae dysgwyr yn cael eu cyfeirio at eu tiwtor dosbarth, neu'n gorfod troi at gyngor yr ysgol yn gyntaf. Mae hyn yn feimlo fel petai'n cyflwyno rhwystr neu ofyniad ychwanegol cyn bod cwynion dysgwyr yn cael eu clywed ac yn destun gweithredu; ac adlewyrchwyd y thema honno yn ein gwaith achosion.

Fe wnaethon ni lunio arolwg a'i anfon at bob un o'r 22 Cyfarwyddwr Addysg yn yr Awdurdodau Lleol (ALL). Cynhaliwyd yr arolwg yn hydref 2024, ac fe gawson ni ymatebion gan 20/22 ALL.

Fe wnaethon ni ofyn 10 cwestiwn oedd yn cynnwys trefniadau monitro prosesau cwynion, gallu'r ALL i ystyried cwyn y tu hwnt i gam C, sut gall teuluoedd gyrchu adolygiad yr ALL o gwyn ysgol, faint o adolygiadau cwynion maen nhw wedi'u cynnal a sut mae hynny'n cael ei gofnodi/fonitro, a pha gefnogaeth sy'n cael ei darparu i gyrrff llywodraethu mewn perthynas â delio â chwynion.

Yn gryno, datgelodd yr ymatebion y canlynol:

- Nid oes dull cyson o fonitro ysgolion mewn perthynas â'u polisiau cwynion; mae ALLau yn gwirio bod polisi gan ysgolion, ond nid ydynt yn edrych ar y manylion.
- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion nad oes cyfle i weithredu ymhellach y tu hwnt i gam C, ac nad yw camweinyddu posibl yn y broses yn cael ei ystyried yn gam ychwanegol yn y broses gwynion.
- Nid amlinellodd unrhyw ALL broses/feini prawf penodol ar gyfer penderfynu a yw cwyn wedi cael ystyriaeth briodol.
- Nifer isel o gwynion oedd wedi cael eu hystyried gan ALLau yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ac nid oedd arfer cyson o ran monitro'r rhain na chofnodion bod y dysgu o'r rhain yn cael ei rannu.
- Nid oedd arfer cyson ar draws ALLau o ran sut gall llywodraethwyr gael mynediad at gefnogaeth neu hyfforddiant. Mae hwn yn fater ehangach sydd wedi codi trwy ein gwaith achosion a pholisi.

Ar hyn o bryd mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth sy'n gwrthdaro ynghylch rolau ALLau, LIC, CPC, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac eraill, ac mae angen datrys hynny, yn enwedig yng ngoleuni ein gwaith arolwg. Fe wnaethon ni gyflwyno'r canfyddiadau i'r Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion, ac roedden ni'n falch o'r ymateb, yn Chwefror 2025, bod swyddogion bellach yn gyfrifol am adolygu'r canllawiau cwynion fel rhan o adolygiad ehangach o gyfres o bolisiau cysylltiedig.

Argymhellion

1. Rhaid i LIC symud ymlaen gyda'u gwaith yn adolygu a diwygio'r polisi cwynion enghreifftiol, gan weithio gyda CPC i roi sylw i'r diffygion a nodwyd trwy ein gwaith.
2. Mae rhaid i LIC edrych eto ar recriwtio, hyfforddiant a chefnogaeth i gyrrff llywodraethu ysgolion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llawn i ddelio â chwynion ac unrhyw faterion llywodraethiant cysylltiedig megis rheoli unrhyw wrthdaro budd posibl. Dylai hynny fod yn rhan o adolygiad ehangach o sut mae cyrrff llywodraethu ysgolion yn gweithredu.



Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae addysg gynhwysol yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cefnogaeth i gyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, os yw dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i dderbyn eu hawl i gael addysg, mae angen darparu mwy o adnoddau.

Mae achosion ADY yn parhau i fod y gyfran uchaf o'n gwaith achos addysg, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er bod hwn yn faes cymhleth, mae'n nodedig bod hyn yn parhau i fod yn wir, yng nghyd-destun deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno gyda'r nod o wella'r broses o nodi, asesu, cynllunio a darparu cymorth i blant yn seiliedig ar eu hangenion.

Mae'n ymddangos yn amlwg nad yw'r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i leihau'r biwrocratiaeth na'r rhwystrau y mae'n rhaid i deuluoedd eu clirio er mwyn cael yr help sydd ei angen ar eu plentyn ac i gyflawni eu potensial.

Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd angen dull mwy effeithiol, wedi'i dargedu o ddyrannu adnoddau, yn seiliedig ar anghenion plant, i fynd i'r afael yn benodol â'r pryderon hyn, ac unrhyw bryderon eraill a nodwyd gan adolygiad Llywodraeth Cymru ei hun.

Mae aelodau arbenigol o staff, hyfforddiant ADY i bob aelod o staff, amgylcheddau a chyfleusterau corfforol hygrych a mynediad at dechnoleg gynorthwyol yn enghreifftiau lle gallai mwy o gyllid sicrhau bod ysgolion prif ffrwd yn llwyddo i fod yn wirioneddol gynhwysol.

Argymhellion

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod a rhoi sylw i fater darparu adnoddau er mwyn gwireddu eu gweledigaeth o addysg gynhwysol i bawb. Rhaid i hynny gynnwys cyllid sylweddol ar gyfer adeiladau ysgol, yn ogystal â rhoi sylw i bryderon ynghylch recriwtio a chadw Cynorthwywyr Addysgu, a'u telerau a'u hamodau.
2. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw manwl i'r canfyddiadau sydd ar ddod o waith yr adolygiad thematig mae Archwilio Cymru yn ei gynnal eleni.

Tlodi

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae tlodi plant wedi bod yn ffocws cyson i'r swyddfa eleni oherwydd ei amlygrwydd, a'i effaith pellgyrhaeddol, anghymesur ar blant yng Nghymru.

Mae'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn "gymharol sefydlog" yng Nghymru ers dros 19 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r gair 'sefydlog' yma yn teimlo'n rhy lednais, gan ei fod yn golygu mewn gwirionedd bod y ffigur yn gwrthod yn ystyfnig â gostwng, ac nid yw'n fetrig yr ydym am ei weld yn parhau'n sefydlog.

Rhwng y flwyddyn ariannol oedd yn diweddu yn (FYE) 2022 ac FYE 2024, roedd 22% o'r holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Ond yn achos plant, mae'r ffigur yna'n codi i 31% yn ystod yr un cyfnod.

Roedd tebygolrwydd o 16% hefyd y byddai plentyn yng Nghymru mewn tlodi parhaus rhwng 2019 a 2023 (ar ôl talu costau tai).

Ymddengys bod y data sy'n dod i'r amlwg yn dangos effaith gadarnhaol yn sgîl cyflwyno, a chynyddu, Taliad Plant yr Alban. Mae adroddiadau gan gyrrff arbenigol megis Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree hefyd yn amlygu agweddau cadarnhaol taliad uniongyrchol i deuluoedd sy'n ddwfn mewn tlodi er mwyn lliniaru'r effaith yn uniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio droeon at y diffyg trosolion sydd ar gael iddyn nhw roi sylw i rai agweddau ar dlodi plant, gan nodi'r system les yn arbennig. Ac eto, mae Cymru'n gweinyddu rhai budd-daliadau, yn fwyaf amlwg cynllun lleihau Treth y Cyngor, prydau Ysgol am ddim, a'r Grant Hanfodion Ysgol.

Mae cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd i'w groesawu'n fawr o safbwynt nifer o hawliau plant, ond mae hynny'n amlygu'r anghydraddoldeb i blant mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig y rhai y mae eu teuluoedd fymryn uwchben y trothwy prydau ysgol am ddim, ac sy'n dal mewn tlodi plant.

Argymhellion

1. Mae angen i Lywodraeth Cymru archwilio pob mecanwaith posibl, gan gynnwys cynlluniau grantiau a/neu daliadau ychwanegol, er mwyn medru gwneud taliadau ariannol uniongyrchol i blant mewn aelwydydd incwm isel sy'n wynebu'r tlodi dyfnaf (Taliad i Blant yng Nghymru sy'n debyg i'r un yn yr Alban).
2. Rhaid i LIC ddiwygio a chodi trothwy incwm Prydau Ysgol am ddim i blant oed ysgol, er mwyn cefnogi'r plant hynny sy'n methu cael ystod o gefnogaeth ar hyn o bryd, weithiau dim ond oherwydd punt neu ddwy.
3. Mae angen hefyd i LIC alw awdurdodau lleol i gyfrif am y cynnydd araf wrth roi mesurau ar waith i gofrestru teuluoedd yn awtomatig ar gyfer yr holl fudd-daliadau perthnasol gallan nhw eu hawlio yng Nghymru (prydau ysgol am ddim, grant hanfodion ysgol a'r cynllun gostwng treth cyngor), er mwyn sicrhau bod cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni yng nghyswllt ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru.



Tai

Mae tai digonol yn cwmpasu llawer agwedd ar hawliau plant, gan gynnwys eu hawliau i ddatblygiad corfforol ac emosiynol, i iechyd, a mynediad at addysg.

Eleni, fe wnaethon ni gynnal adolygiad thematig, gan gynhyrchu adroddiad oedd yn manylu ar brofiadau plant a phobl ifanc o dai annigonol a digartrefedd. Dyma'r tro cyntaf i leisiau plant o dan 16 oed gael eu casglu ar y materion hyn ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ac mae'n hanfodol bod yr arfer hwn yn parhau, yn enwedig trwy symud ymlaen gyda Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

Trwy'r adroddiad hwn, fe wnaethon ni gynnig sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru ac i awdurdodau lleol. Rydyn ni wedi cwrdd â'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Tai a Llywodraeth Leol i drafod y canfyddiadau, ac fe gawsom ymateb ffurfiol, ond nid oes ymrwymadau clir i roi dim o'r argymhellion ar waith.

Argymhellion i Lywodraeth Cymru – fel y nodwyd yn ein hadroddiad

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei holl ganllawiau tai a digartrefedd i sicrhau bod gofynion penodol sy'n ymwneud â hawliau plant o dan CCUHP. Mae hynny'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:
 - Canllawiau'r Grant Cymorth Tai
 - Canllawiau'r Grant Plant a Chymunedau
 - y Côt Arweiniol i Awdurdodau Lleol ar Dyrannu Llety a Digartrefedd
2. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol sicrhau bod anghenion a hawliau plant yn cael eu hystyried yn uniongyrchol, gan gynnwys siarad ag unrhyw blant perthnasol, wrth lunio Cynlluniau Tai Personol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i ddatblygu a chyflwyno dogfennau templed a chanllawiau fydd yn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru.
3. Fel rhan o'r monitro wedi'i dargedu ar y Siarter Rhianta Corfforaethol ac addunedau, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n benodol i fonitro addunedau cymdeithasau tai ac asiantaethau iechyd, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth bennu a monitro'r camau gweithredu.
4. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o gydymffurfiaeth Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill â Fframwaith Llety a Chymorth Ymadawyr Gofal Cymru, er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson i anghenion tai ymadawyr gofal a'u diogelwch personol.
5. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil gyda phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches a'u teuluoedd i ganfod digonolrwydd y ddarpariaeth tai/llety iddyn nhw yng Nghymru ac a yw'r gefnogaeth sydd ar gael yn diwallu anghenion a hawliau plant.



Trafnidiaeth

Mae Teithio gan Ddysgwyr yn dal yn un o nodweddion rheolaidd ein gwaith achosion. Eleni yn arbennig mae'r achosion hyn wedi amlygu'r diffygion clir yng nghanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, o'u cymharu â phrofiadau teithio dyddiol dysgwyr. Mae teuluoedd o nifer o ardaloedd wedi cysylltu â ni oherwydd bod yr Awdurdod Lleol yn cyfyngu polisi a fu gynt yn fwy hael i'r gofynion hanfodol a nodwyd yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a'r canllawiau cysylltiedig.

Ni allwn herio awdurdodau lleol yn uniongyrchol ar y penderfyniadau hynny lle maen nhw'n dal i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ond rydyn ni'n cydnabod yr heriau sylweddol mae rhai disgyblion yn eu hwynebu wrth geisio cyrraedd yr ysgol bob dydd. Mae materion cysylltiedig â phresenoldeb yn yr ysgol wedi bod yn ffocws i'r Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond hyd yma ni welwyd cysylltiad cryf rhwng polisiâu ynghylch teithio gan ddysgwyr a phresenoldeb.

Buon ni'n siarad â phobl ifanc am hyn yn ystod y flwyddyn, ac fe fuon nhw'n rhannu gyda ni yr heriau maen nhw'n eu hwynebu o ran cyrraedd yr ysgol yn brydlon oherwydd darpariaeth drafnidiaeth annigonol. Mae hynny'n cynnwys methu cael lle ar fws yn y bore, oherwydd ei fod wedi gorlenwi, er eu bod mewn rhai achosion wedi talu am docyn i deithio i'r ysgol ar y bws hwnnw. Amlygwyd yn ystod y flwyddyn fod costau trafnidiaeth i'r ysgol yn fwy na chost rhai tocynnau diwrnod oedd ar gael yn yr un ardaloedd, er bod y tocynnau dan sylw wedi'u cyfyngu i wasanaethau trafnidiaeth ysgol yn unig.

Nid yw plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn gymwys yn awtomatig i dderbyn trafnidiaeth am ddim. Mae teuluoedd wedi dweud wrthyn ni am orfod 'dewis' pa ddiwrnod i beidio â mynd i'r ysgol, ar sail y gwersi sydd ar yr amserlen, o ran y 'gorau' i'w colli pan nad oedden nhw'n gallu fforddio mynd bob dydd.

Neges gref rydyn ni'n ei chlywed yw bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i lawr, a'u bod yn ddryslyd ynghylch eu methiant i dderbyn eu hawl i addysg wrth wynebu rhwystrau o'r fath ar y ffordd i'r ysgol.

Ym mis Chwefror 2025 buon ni'n cynnal trafodaeth ehangach ar faterion trafnidiaeth gyda phobl ifanc, gan ymgysylltu â swyddogion Trafnidiaeth Cymru. Rydyn ni wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Bil Bysiau sy'n mynd trwy'r Senedd eleni hefyd; gan amlygu nad ydyw, yn ei fformat presennol, yn rhoi sylw i'r heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â theithio gan ddysgwyr, bod trafnidiaeth a darparu bysiau yn fater hawliau plant pwysig, a bod diffyg opsiynau teithio addas gan lawer o bobl ifanc i fynd â nhw i'r ysgol a'r coleg, yn ogystal â materion fforddiadwyedd, a heb sôn am unrhyw weithgareddau eraill neu i fynd i weld ffrindiau a theulu.

Argymhellion

1. Gan adeiladu ar yr Uwch-gynhadledd Teithio gan Ddysgwyr eleni, dylai Llywodraeth Cymru gynnal sesiynau penodol i ymgysylltu â dysgwyr, neu uwch-gynhadledd llais y dysgwr er mwyn clywed gan ystod llawer mwy cynhwysfawr o blant a phobl ifanc nag hyd yma, er mwyn llywio eu polisiâu a'u canllawiau teithio gan ddysgwyr.
2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, trwy eu prosesau pennu cyllideb, fod gan Awdurdodau Lleol ddigon o gyllid i roi sylw i'r holl heriau hysbys mae dysgwyr yn eu hwynebu wrth geisio cyrraedd yr ysgol yn ddiogel ac yn brydlon.
3. Rhaid i'r Bil Bysiau nodi'n benodol sut mae'n bwriadu integreiddio neu gyfuno gwasanaethau bws masnachfaint â'r ddarpariaeth Teithio gan Ddysgwyr, a sut mae'n bwriadu diwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol.



Anabledd

Mae datblygu dealltwriaeth bellach o brofiadau plant a phobl ifanc Anabl, wedi bod yn nodwedd allweddol o'n gwaith Cydraddoldeb eleni.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn nodi dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt ac mae Pennod 5 o Gôd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn esbonio sut mae angen i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom gynnal digwyddiad yn Llanelwy, gogledd Cymru lle gwnaethom archwilio'r dyletswyddau hynny gyda dros 80 o weithwyr proffesiynol. Dangosodd y digwyddiad sut y gallai dull hawliau plant ddarparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn ac i sicrhau cyfranogiad effeithiol yr holl blant a phobl ifanc.

Gwnaethom hefyd groesawu canllawiau statudol digonolrwydd chwarae Llywodraeth Cymru wedi'u hadnewyddu Cymru – Gwlad lle mae cyfle i Chwarae' yn cynnwys pennod mwy manwl am ymgynghori, cyfranogiad ac ymgysylltu, gan gynnwys cyfeiriad at ein fframwaith a'n canllawiau y Ffordd Gywir.

Gan ymateb i fater a gododd o'n gwaith achosion yng nghyswllt y diffyg darpariaethau cyfreithiol sy'n rheoli maint a chynllun ysgolion anabl, fe wnaethon ni alw ar Lywodraeth Cymru i symud ymlaen ar frys i adolygu a chryfhau canllawiau a fyddai'n helpu i gynyddu mynediad dysgwyr anabl i ysgolion. Wedi i'r mater hwn gael ei drafod, mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi nodi y byddan nhw'n symud hyn yn ei flaen, ac rydyn ni'n awyddus i weithio gyda swyddogion i sicrhau bod y canllawiau 'Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau' yn rhoi sylw i anghenion plant a phobl ifanc.

Er gwaethaf hynny, ar adeg ysgrifennu, ni fu cynnydd nac ymrwymiad pellach i symud hyn ymlaen, hyd y gwyddom.

Argymhelliad

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'u gwaith i adolygu a diwygio'r canllawiau: 'Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau'.

Iechyd meddwl

Ym mis Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025, buon ni'n cynnal 4 sesiwn grŵp ffocws gyda phobl ifanc, a 3 digwyddiad bord gron gyda phobl broffesiynol oedd yn gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc, ac ar eu rhan, ar draws y sector statudol a'r trydydd sector.

Strwythurwyd y sesiynau o amgylch 5 thema allweddol:

- Diffinio iechyd meddwl, a llesiant emosiynol, a'r iaith a ddefnyddir amdanynt
- Cefnogaeth gymunedol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Cefnogaeth yn yr ysgol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Gwasanaethau arbenigol a chefnogaeth i blant ag anghenion cymhleth
- Blaenoriaethau a negeseuon allweddol i'r Comisiynydd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru

Buon ni'n trafod enghreifftiau o arfer da, a phrofiadau cadarnhaol o'r hyn sy'n gweithio, yn ogystal â'r heriau ac enghreifftiau o brofiadau gwael.

Fe wnaethon ni ofyn i'r cyfranogwyr am eu negeseuon i Lywodraeth Cymru, a dyma oedd y themâu amlycaf yn eu hymatebion:

Themâu mwyaf poblogaidd y trafodaethau hyn oedd:

- Pryderon ynghylch y ffaith bod y strategaeth Iechyd Meddwl yn cwmpasu pob oed – mae angen ffocws ar fabanod, plant, a phobl ifanc
- Cydgynhyrchu – mae angen cefnogi pobl ifanc i gydgyhyrchu atebion
- Ataliaeth – pwysigrwydd mynd i'r afael ag achosion gwaelodol a rhoi sylw i benderfyniadau cymdeithasol salwch meddwl
- Yr angen am wreiddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant
- Yn aml mae gan y trydydd sector fwy o ystywythder i arloesi – dylai hynny gael ei ddefnyddio a'i gefnogi'n fwy
- Mae angen ymarfer gwybodus am drawma ar draws pob gwasanaeth sy'n cefnogi babanod, plant a phobl ifanc

Yn 2024, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddrafft newydd o Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant i bob oed. Fe wnaethon ni ymateb i'r ymgynghoriad a rhannu'r negeseuon a gawsom ar draws ein gwaith. Mae pryderon yn parhau ynghylch y ffaith bod Strategaeth newydd Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru yn cwmpasu pob oed. Mae'n rhaid sicrhau ffocws ar fabanod, plant, a phobl ifanc i sicrhau bod eu hanghenion yn derbyn sylw gweithredol.

Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi manau diogel, hygyrch yn eu cymuned, sy'n eu cynnal yn gymdeithasol, ac sy'n gallu darparu gwasanaeth i bobl ifanc â lefelau is o anghenion cefnogi iechyd meddwl, yn ogystal â'r rhai sy'n profi argyfwng iechyd meddwl. Dylai llwybrau mynediad unigol hygyrch a chlir fod yn ofynnol yn ardal pob bwrdd iechyd, gyda mewnbwn a chefnogaeth gan asiantaethau a gwasanaethau lluosog, fydd yn cynnwys partneriaid statudol a thrydydd sector. I'r graddau mae hynny'n bosibl, dylai gwasanaethau o'r fath weithio'n gyfannol gyda holl aelodau'r teulu i ymateb i'w hanghenion cefnogi.



Mae ar staff ysgolion hefyd angen mwy o adnoddau a hyfforddiant i wireddu'r weledigaeth o ddull ysgol gyfan wrth ymdrin â llesiant meddyliol ac emosiynol.

Dylai gofal mewn argyfwng fod yn fwy hygyrch, a dylai gwybodaeth am sut mae cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol fod ar gael yn fwy hwylus i'r rhai sydd angen hynny.

Argymhellion

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob ardal bwrdd iechyd a rhanbarth yn creu ac yn cynnal pwyntiau mynediad unigol ar gyfer cefnogaeth neu 'siopau dan yr unto', gan gydweithio ag asiantaethau niferus fydd yn cynnwys partneriaid statudol a thrydydd sector. Dylai gwasanaeth o'r fath geisio gweithio gyda holl aelodau'r teulu i ymateb i'w hanghenion cefnogi. Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso mwy o rannu a dysgu ymhlith Byrddau Iechyd ynghylch y darpariaethau hyn.
2. Mae'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol yn galw am fwy o fuddsoddiad parhaus mewn staff 'ar lawr gwlad', fel bod modd meithrin perthynas lawn ymddiriedaeth gyda nhw.
3. Mae angen mwy o ffocws ac adnoddau yn y dulliau ataliol ac ymyrraeth o gynnal a chefnogi llesiant emosiynol a iechyd meddwl da; ar hyd beichiogrwydd ac ym mlynnyddoedd cynnar bywyd plentyn.



Niwroamrywiaeth

Mae gwaith wedi symud ymlaen yn ystod eleni o dan oruchwyliaeth y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Niwroamrywiaeth (lle rydyn ni'n arsylwi), yn dilyn sawl blwyddyn o gynnydd gweddol gyfyngedig ar hyn i blant.



Mae Cōd Ymarfer Niwroamrywiaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae hynny wedi bod yn digwydd ar hyd 2024-25. Mae'n hanfodol bod y Cōd hwn yn canolbwyntio ar hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc.

Bydden ni'n hoffi gweld ymgysylltu mwy ystyrlon â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol. Roedd y digwyddiad dau ddiwrnod a gynhaliwyd yn hydref 2024 er mwyn i weithwyr proffesiynol drafod ailddylunio gwasanaethau niwroddatblygiadol i'w groesawu, ond nid oedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r digwyddiad hwnnw. Bydden ni'n hoffi gweld ymgysylltu a chydgynghyrchu parhaus â phlant a phobl ifanc wrth i'r model newydd gael ei ddatblygu.

Mae'r Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth wedi cael ei hestyn am ddwy flynedd arall (2025 – 2027). Mae angen pennu deilliannau digon heriol, gyda cherrig milltir allweddol a metreg fydd yn sicrhau bod materion yn derbyn sylw, gan gynnwys newid diwylliant a mynd i'r afael yn briodol â rhestrau aros, ochr yn ochr â sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cyrchu cefnogaeth wrth iddyn nhw aros.

Argymhellion

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc niwroamrywiol yn ymwneud yn uniongyrchol â ffurfio gwasanaethau'r dyfodol a'r gefnogaeth a gynigir iddyn nhw.
2. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r deilliannau y byddan nhw'n eu cyflawni erbyn 2027, gan sicrhau bod y rhain yn mynd i'r afael â'r pwysau ar restrau aros ac yn sefydlu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i unrhyw blentyn a'u teulu sydd ar restr aros.



Rhaglen Plentyn Iach Cymru

Ers peth amser, rydyn ni wedi bod yn codi pryderon ynghylch yr amrywiadau rhwng byrddau iechyd yn ystadegau ymweliadau iechyd cyswllt. Er bod gwelliannau cyffredinol wedi'u gweld yn ddiweddar, mae anghysondeb mawr o hyd rhwng byrddau iechyd. Hefyd ymddengys fod rhai anawsterau'n parhau o ran cofnodi cyswllt. Er ein bod ni'n croesawu'r gwaith sy'n digwydd i ddigideiddio'r llyfr coch, mae hynny'n cymryd cryn amser, ac mae angen i'r gwaith ar hyn symud ymlaen yn gynt fel bod ymwelwyr iechyd yn cael eu cefnogi i gofnodi enghreifftiau o gyswllt yn amserol a chywir. Rydyn ni wedi codi'r materion hyn gyda'r Prif Swyddog Nyrsio, Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Yn eu hymateb i'n Hadroddiad Blyneddol yn 2023-24, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu Rhaglen Plentyn Iach Cymru Rhan 1, ond ni welwyd hynny'n cychwyn eto. Dylai hwn yn wir fod yn wasanaeth i bawb, ond yn rhy aml rydyn ni'n clywed nad yw ymweliadau iechyd yn cael eu cynnig ar adegau cyswllt hanfodol.

Argymhelliad

Rhaid i'r adolygiad o Raglen Plentyn Iach Cymru Rhan 1 ystyried a rhoi sylw i gwestiynau sylfaenol ynghylch addasrwydd at y diben, a dylai gychwyn yn ddi-oed.

Cydlyniant Cymunedol

Yn dilyn terfysgoedd yr haf yn 2024, ym mis Chwefror 2025, fe wnaethon ni wahodd pobl ifanc i fod yn rhan o Ford Gron Cydlyniant Cymdeithasol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.

Rhannodd pobl ifanc eu profiadau o hiliaeth ac effaith terfysgoedd haf 2024 ar eu cymunedau. Yna roedd cyfle i fod yn rhan o sesiwn holi ac ateb gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog.

Roedd themâu allweddol y grŵp yn cynnwys:

- Bod pobl ifanc eisiau gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau cefnogi oedd ar gael iddyn nhw
- Ceisio sicrhau bod hwylyswyr cydlyniant cymunedol yn fwy gweladwy
- Eisiau sicrwydd bod athrawon yn cael hyfforddiant ar sut i gefnogi dysgwyr y gallai hiliaeth a/neu derfysgoedd yn eu cymuned effeithio arnyn nhw
- I rai, roedd presenoldeb yr heddlu'n rhoi sicrwydd, i eraill roedd yn cynyddu ymdeimlad o ofn gan eu bod yn pryderu bod rhywbeth arall wedi digwydd
- Sut gall ysgolion annog agwedd fwy cynhwysol
- Taclo amlygrwydd newyddion ffug a phostiadau hiliol ar-lein

Er ein bod yn croesawu'r cyfle hwn i bobl ifanc siarad yn uniongyrchol â llunwyr penderfyniadau, mae'r cynnydd o ran ymgysylltiad plant â chraffu ar waith megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'i atebolrwydd, wedi bod yn gyfyngedig. Rydyn ni'n gwybod bod materion hiliaeth a chydlyniant cymunedol yn dal yn bryderon byw a sylweddol i blant a phobl ifanc ledled Cymru, yn ogystal â materion cysylltiedig â ffoaduriaid a darparu noddfa.

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu mecanwaith newydd er mwyn i bobl ifanc fwydo'n ffurfiol i mewn i strwythur llywodraethu ArWAP, gan adlewyrchu rôl oedolion ar y Grŵp Atebolrwydd Allanol (EAG). Wrth symud ymlaen, dylai'r grŵp plant a phobl ifanc yma weithredu fel strwythur enghreifftiol ar gyfer sicrhau bod grwpiau craffu ac atebolrwydd ar draws Llywodraeth Cymru yn cynnwys pobl ifanc.



Diogelu

Yn ystod eleni, mae ein swyddfa wedi adnewyddu ei ffocws ar argymhellion 2022 o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).

Ym mis Ionawr 2025 fe wnaethon ni gyhoeddi'r blog hwn yn edrych ar gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn y chwe argymhelliad IICSA sy'n berthnasol i'r llywodraeth ddatganoledig. Defnyddiodd Nation.Cymru hynny fel darn safbwynt i'w gyhoeddi.

Rydyn ni wedi cwrdd ag aelodau o'r Senedd, Gweinidogion y Llywodraeth a swyddogion sy'n ymwneud â'r pwnc hwn, yn ogystal â rhai sefydliadau seiliedig ar ffydd, byrddau diogelu a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB).

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rolau'r NISB, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a'n swyddfa, o'u cyfuno, yn cyflawni'r swyddogaethau a fwriadwyd ar gyfer Awdurdod Amddiffyn Plant newydd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd pob un o'r tri chorff yn bodoli cyn IICSA, a rhoddodd AGC dystiolaeth uniongyrchol i'r ymchwiliad hwnnw, ond argymhelliad yr ymchwiliad serch hynny oedd bod angen corff newydd.

Nid oes gan neb ohonom gylch gorchwyl na chyfrifoldeb yng nghyswllt sefydliadau ffydd, na grwpiau chwaraeon. Mae hwn yn dal yn fwllch pwysig yn y trefniadau diogelu presennol yng Nghymru. Nid oes rôl ddynodedig i'r byrddau diogelu plant rhanbarthol chwaith; rydyn ni wedi bod yn trafod hynny gydag asiantaethau statudol, a dydyn nhw ddim yn derbyn cyfrifoldeb am adroddiadau a gomisiynwyd gan/ar asiantaethau allanol, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymwneud â phryderon diogelu yng nghyswllt plant yn eu hardal leol.

Mae adolygiadau megis y rhai ynghylch Ynys Bŷr, a Chadeirlan/esgobaeth Bangor wedi dangos lle gall diffyg gorolwg annibynnol olygu nad oes craffu ar weithredoedd, a bod argymhellion adroddiadau ddim yn cael eu rhoi ar waith.

Yn ystod y flwyddyn, daeth y system Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR) i rym. Rydyn ni bellach yn eistedd ar y Bwrdd Gweinidogol, a'r Grŵp Strategaeth ar gyfer y gwaith hwn. Gwelwyd rhai datblygiadau i'w croesawu o ran dechrau coladu ac adolygu adroddiadau ac argymhellion blaenorol, ac olrhain themâu yn y system SUSR newydd a gomisiynwyd o'r cychwyn, yn hytrach nag aros i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi. Mae angen sylw ar rai meysydd o hyd yng nghyswllt llywodraethiant ehangach, fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn rhai CAMPUS, ac yn cael eu gweithredu'n llawn yn brydlon, a hynny yn yr ardal ranbarthol a'r sefydliadau gwreiddiol, yn ogystal ag ar draws Cymru.

Mae gan yr atebion technoleg sy'n cefnogi'r prosesau hyn, megis Cronfa adroddiadau Diogelu Cymru, a'r Dangosfwrdd tracio sy'n monitro argymhellion adroddiadau, botensial i helpu pawb sy'n ymwneud â diogelu yng Nghymru i olrhain a rhoi sylw i argymhellion a dysgu arall mewn modd mwy effeithiol a phrydlon. Ond hyd nes y cawn fynediad priodol i ddefnyddio'r darpariaethau newydd hyn, does dim ots pa mor flaengar ydyn nhw ar lefel fyd-eang, os ydyn nhw'n parhau'n gysyniadau, yn hytrach nag yn offer hygyrch i bawb sy'n gweithio mewn rolau perthnasol yng Nghymru.

Argymhellion

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r tirlun diogelu cyfredol ar frys, ynghyd â'i fecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y bylchau a nodwyd yn derbyn sylw trwy gamau gweithredu newydd, gyda newid deddfwriaethol yn sylfaen ar gyfer hynny yn ôl y galw.
 2. Mae angen cynnal adolygiad Blwyddyn Un o'r broses SUSR yn fuan, fel bod y canfyddiadau ar gael i'w derbyn a'u rhoi ar waith cyn etholiad y Senedd yn 2026.
- Mae angen rhagor o waith i wella atebolrwydd a llywodraethiant yng nghyswllt adolygiadau diogelu er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru yn ymwybodol o'r gwersi a ddysgwyd trwy Adolygiadau ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n rhaid i hynny gychwyn â mynediad ehangach i'r offer Dangosfwrdd a Chronfa fel mater o flaenoriaeth.

Rydyn ni'n sefydliad sy'n falch o fod yn wrthhiliol, yn gyflogwr Cyflog Byw, a chyflogwr Hyderus ynghylch Anabledd.




08

EIN HYMRWYMIADAU

Mae yna rai safonau a dyletswyddau cenedlaethol penodol y mae'n rhaid i ni eu dilyn fel corff cyhoeddus, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Am y tro cyntaf, byddwn hefyd yn adrodd eleni ar yr ymrwymïadau a wnaethon ni fel rhiant corfforaethol.

Dyma sut rydyn ni wedi cyflawni'r safonau a'r dyletswyddau hynny eleni.



Safonau'r Gymraeg

Mae ein dyheadau'n glir: rydym am i'r Gymraeg fod yn iaith fyw, sy'n anadlu yn ein sefydliad. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Bod y fîm yn defnyddio'r iaith bob dydd, ym mhob agwedd ar ein gwaith;
- Nad rhywbeth rydyn ni'n ei ddefnyddio i gyfleu negeseuon yn unig yw'r iaith, ond ei bod yn fodd i'n cysylltu â'n gilydd ac â'r rhai rydyn ni yma i'w cynrychioli;
- Ymhlith y rhai yn y Tîm sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg, bod ewylllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth at ddysgu a defnyddio'r iaith;
- Bod pawb yn cydnabod cyfraniad yr iaith i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- Ein bod yn cyflawni, ac mewn rhai achosion yn rhagori ar ein rhwymedigaethau statudol o dan y safonau a amlinellwyd ym Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011;
- Bod perchnogaeth ar ein dyheadau o ran cydymffurfio, hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg ar lefel y Tîm Rheoli; a hefyd ein bod
- Yn monitro ein gweithgareddau trwy gyfarfodydd Tîm Rheoli, gyda chyfrifoldeb ar y cyd ac yn cytuno ar gamau rhagweithiol i gefnogi a chynyddu defnydd o'r iaith yn ein gweithle

Rydyn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i hybu iaith ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae gennym fesurau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau hynny.



Ar 31 Mawrth 2025, roedd **23** o bobl yn gweithio i'r Comisiynydd. O'r aelodau hynny, mae:

- 8** yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd â Chymraeg lefel mynediad
- 2** yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau Cymraeg cymedrol
- 3** yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau Cymraeg uwch
- 8** yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg

Ni chawson ni unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod 2024/25.



Cydraddoldeb

Mae'r Comisiynydd yn awdurdod rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hynny'n golygu bod rhaid i'r swyddfa ddilyn yr hyn a elwir yn 'ddyletswyddau cyffredinol' i hybu cydraddoldeb.

Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol, mae cydraddoldeb yn ganolog i weledigaeth a chenhadaeth y Comisiynydd. Eleni buon ni'n parhau i fireinio ein cynllun cyflawni strategol ar gyfer cydraddoldeb i sicrhau ei fod yn cyfateb i'n hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaethau strategol ehangach. Gallwch chi ddarllen ein hamcanion cydraddoldeb strategol a ddiweddarwyd a'n cynllun cyflawni ar ein gwefan yma: complantcymru.org.uk/amdanom-ni/ein-gwaith-ar-gydraddoldeb/



Siarter Rhianta Corfforaethol

Yn ein hymrwymiaidau cyhoeddus i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, fe wnaethon ni addo adrodd ar ein gwaith a'n cynnydd ym mhob agwedd ar Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, yr ydyn ni wedi bod yn falch o ymrwymo iddi, a llunio cynllun gweithredu llawn er mwyn ei gwreiddio yn ein gwaith.

Dyma uchafbwyntiau ein gwaith yn y cyswllt hwn eleni:

- Rydyn ni wedi mireinio ein hagwedd at ein Paneli Ymgynghorol, sy'n rhan o'n llywodraethiant strategol a'n cynlluniau gwaith. Mae hynny wedi cynnwys llwyddo i recriwtio nifer o grwpiau o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fwydo i mewn i sgysiau ar ein gwaith a'n blaenoriaethau. Byddwn ni'n parhau i wneud hynny yn y flwyddyn sy'n dod.
- Trwy ein gwaith achosion, rydyn ni wedi hyrwyddo'n arbennig bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n wynebu digartrefedd yn sgîl pontio wrth gyrraedd 18 oed. Roedd hon yn nodwedd mewn achosion unigol lle rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau llefydd addas i'r unigolion hynny, ond mewn gwirionedd ddylsen nhw ddim gorfod troi aton ni i gael gwrandawriad a chefnogaeth fel hyn. Mae hyn hefyd wedi dylanwadu ar ein gwaith polisi trwy'r arddangosfa Lwc y buon ni'n ei chynnal ym mis Tachwedd 2024, trwy ein hymwneud ag Aelodau o'r Senedd a Gweinidogion, a thrwy ein haelodaeth o weithgorau'r Llywodraeth ar Rianta Corfforaethol a Thrawsfurfio Gofal Cymdeithasol i Blant. Byddwn ni'n parhau i symud ymlaen â'r galwadau hyn trwy ddiwygio'r Côd Ymarfer ar gyfer Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Rydyn ni wedi llofnodi Memorandwm Dealltwriaeth newydd gyda'r Senedd, trwy'r Llywydd a'r Senedd leuencid, i sicrhau mwy o graffu ar ein gwaith trwy'r Senedd leuencid, yn ogystal â mwy o gydweithio a gweithio ar y cyd ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o ofal.
- Rydyn ni wedi canolbwyntio ar gynhyrchu mwy o gynnwys hygyrch ac adnoddau ar draws ystod o blatfformau ar-lein, ac wedi diweddarau ein gwefan er mwyn sicrhau cwrpas ac ymgysylltu ehangach â'n gwaith. Rydyn ni wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar draws y fîm staff i gefnogi hyn.
- Rydyn ni'n rheolaidd wedi mynychu nifer o wahanol grwpiau cefnogi neu fforymau profiad o ofal er mwyn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau a'u blaenoriaethau. Mae staff o amrywiaeth o dimau yn ein sefydliad wedi bod yn rhan o'r ymweliadau hyn er mwyn sicrhau effaith uniongyrchol ar bob rhan o'n gwaith.
- Rydyn ni wedi bod yn gweithio i ddiwygio'n gweithdrefnau cwynion, trwy weithio ar broses cwynion enghreifftiol gyda phartneriaid allanol. Nod hyn yw gwneud systemau cwynion yn haws eu cyrchu a chael hyd i ffordd drwyddynt. Mae gwaith ar y nod hwn yn parhau eleni.
- Rydyn ni wedi dod i gysylltiad â nifer o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i archwilio opsiynau profiad gwaith, ac rydyn ni wedi llwyddo i gwblhau un lleoliad hyd yma. Fe wnaethon ni gefnogi'r person ifanc i ymgysylltu â'r lleoliad hwn, ac rydyn ni wrthi'n cynhyrchu gwerthusiad i'w rannu gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o gefnogi mwy o gyrff cyhoeddus i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig profiadau tebyg. Byddwn ni'n parhau i dargedu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn hwyluso lleoliadau profiad gwaith, fel rhan o ddull ehangach o sicrhau bod ein profiad gwaith yn ceisio gwrthweithio anfantais a'r gwahaniaethu mae rhai yn ei wynebu.

09 EIN HAMRYWIAETH

Proffil Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ein gweithlu ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025





1 Cyflwyniad a chyd-destun

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am amrywiaeth bob blwyddyn gan ein Tîm a chan aelodau Panel Archwilio a Chynghori'r Comisiynydd mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r ystadegau pwysig hyn yn ein helpu i nodi camau cadarnhaol fydd yn gwella natur gynhwysol ein gweithle. Cais gwirfoddol yw hwn, ac mae rhyw 15% o'r cyfranogwyr yn dewis yr opsiwn 'devis peidio â dweud' ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb, felly nid oes gennym ddarlun llawn, ac mae cafeat ar yr adran hon yn hynny o beth.

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd rhannu ein hystadegau amrywiaeth, fîm bach ydym ni (dim ond 23 o bobl ar 31 Mawrth 2025), felly mae cyfyngiadau ar lefel y manylion y gallwn ni eu rhannu wrth barchu hawliau diogelu data ein cydweithwyr.

Er hwylustod adrodd a chymharu o un flwyddyn i'r nesaf, rydyn ni'n adrodd ein hystadegau ar ddyddiad penodol yn y flwyddyn (31 Mawrth 2025). O ganlyniad, mae'n rhaid i ni dderbyn hefyd na fydd y dull hwn yn casglu proffil amrywiaeth yr holl gyflogeion tymor byr na'r myfyrwyr ar leoliad rydyn ni wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn, a fydd yn ddiamau yn dod â chyfoeth o safbwyntiau a phrofiadau i'n Tîm.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r data'n rhoi rhesymau i ni ddathlu, yn ogystal ag arwydd o'r hyn sy'n ein helpu ar ein taith at adeiladu gweithle mwy cynhwysol.

2 Rhesymau i ddathlu

Er gwaethaf y cyfyngiadau yn y data fel y nodwyd uchod, mae pethau i'w dathlu eleni ynghylch cyfansoddiad ein Tîm bychan o safbwynt cydraddoldeb:

- Rydyn ni'n falch o'n cydraddoldeb rhywedd sy'n enghraifft o rymuso menywod yn y gweithle. Mae gennym Gomisiynydd Plant sy'n fenyw a thîm rheoli sy'n cynnwys 5/6 o arweinwyr sy'n fenywod. Eleni gwelwyd newid sylweddol yn ein differynnau cyflog rhywedd (gweler adran 4);
- Rydyn ni'n falch o'n diwylliant Cymraeg. Mae gan ganran uchel o'n cydweithwyr ethnigrwydd Cymreig, ac mae gan 61% o'n fîm o staff sgiliau rhugl ac uwch yn yr iaith;
- Rydyn ni hefyd yn cymryd camau i wella amrywiaeth ein Tîm â rhai safbwyntiau pwysig (a fu gynt ar goll) o blith lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, gan gynnwys y gymuned Tsieineaidd a chredoau sy'n cynnwys Bwdhaeth.
- Rydyn ni'n falch o'n hymdrechion i gefnogi pobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn y gweithle, ac rydyn ni wedi bod yn dysgu gan gydweithwyr ac aelodau o'r fîm Archwilio a Chynghori sy'n deall anabledd trwy gysylltiad. Rhai o'r mentrau cefnogi a gynigir i'n staff yw ein dull gweithio hyblyg, gallu i weithio o bell, hawl i adael y gwaith i fynd i apwyntiadau meddygol, gwasanaethau allanol fel Mynediad at waith a lechyd Galwedigaethol, prynu offer swyddfa penodol ac asesiadau DSE. Rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc ag anableddau i fod yn rhan o brosesau recriwtio a chyfarfodydd a gweithgareddau ein Panel Ymgynghorol, gan ddysgu drwy'r amser gan eu perthnasau a'r bobl ifanc eu hunain beth yw'r ffordd orau o'u galluogi i gyfranogi'n lawn. Rydyn ni hefyd wedi parhau ar ein taith eleni at fod yn sefydliad gwybodus am drawma, ac wedi parhau i ddysgu trwy ein haelodaeth o'r Cynllun Hyderus o Ran Anabledd.

- Rydyn ni'n cyflogi pobl o bob ystod oed, gydag aelod ifancaf y Tîm yn eu 20au, a'r hynaf dros 60.
- Gan mai fîm bach iawn o bobl ydym, mae profiadau bywyd amrywiol aelodau o'n panel Ymgynghorol Oedolion a'n Panel Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig i gwmpas ein golwg ar y byd.

Rydyn ni'n ofalus optimistaidd y bydd y newidiadau i'n prosesau recriwtio yn parhau i gynyddu amrywiaeth ein Tîm; serch hynny, dydyn ni ddim yn llaesu dwylo ynghylch cydraddoldeb ein gweithlu. Rydyn ni'n gwybod y gall amrywiaeth y Tîm newid os bydd un person yn ymddiswyddo, ac mae rhai profiadau bywyd pwysig yn dal ar goll o'n corff presennol o staff.

Fodd bynnag, mae aelodau ein Panel Ymgynghori yn cyflawni rôl allweddol yn dod â lleisiau sydd ar goll i'n gwaith. Mae ein panel cyfredol yn cynnwys pobl â phrofiadau bywyd LHDTC+, anabledd a chefnidiroedd ethnig lleiafrifol, a gwahanol grefyddau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, chawson ni ddim cyfleoedd i recriwtio i swyddi lle gallen ni fireinio neu brofi ein prosesau recriwtio mewn perthynas â chydaddoldeb.

Roedd ein gweithgareddau dysgu a datblygu eleni yn cynnwys hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Tân, hyfforddiant Cymorth Cyntaf, a dysgu mwy am yr anghydraddoldeb mae plant a theuluoedd sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn ei brofi. Er mwyn dysgu mwy am dlodi bwyd, bu'r fîm cyfan yn ymweld â banciau bwyd i wirfoddoli trwy Trussell Trust.



3 Amrywiaeth cyffredinol y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gennym ni 23 o bobl ar y gyflogres (yn cynnwys y Comisiynydd Plant).

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, gadawodd un person oedd ar gontract cyfnod penodol y Tim.

Ni wnaed penodiadau newydd yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 31 Mawrth 2025:

- Roedd **4%** o'n gweithlu (1 person) wedi'u cyflogi ar sail cyfnod penodol, yn uniongyrchol gysylltiedig â chyfnod mamolaeth.
- Roedd **56.5%** o'n cydweithwyr (13 allan o 23 o bobl) yn gweithio oriau amser llawn, a 43.5% yn gweithio oriau rhan amser. Roedd hynny'r un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae 8.5% o'n gweithwyr rhan amser yn wrywod (2 allan o 10 o bobl). Nid yw hynny wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae **82%** o'n gweithlu yn nodi hunaniaeth fenywaidd; mae hynny yr un fath â'r llynedd. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o aelodau ein Panel Archwilio a Chynghori yn fenywod.
- Datgelodd mwyafrif o'r ffin staff gyfeiriadedd wahanrywiol, neu ddewis peidio â datgelu cyfeiriadedd rhywiol. Datgelodd canran fechan o aelodau ein Panel Archwilio a Chynghori gyfeiriadedd hoyw.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tim hunaniaeth drawsrywiol, ddeurywiol na rhywedd cyfnewidiol yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae **35%** (8 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed; mae hynny fymryn yn is na'r llynedd, pryd yr oedd 39% o'n gweithlu o dan 35 oed. Mae 37.5% (2 allan o 8 o bobl) yn y grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Mae **43%** (10 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn rhwng 36 a 54 oed. Mae 30% (3 allan o 10 o bobl) o'r grŵp oed yma'n gweithio'n rhan amser. Mae'r rhan fwyaf o'n Panel Oedolion Archwilio a Chynghori yn yr ystod oed yma.
- Mae **22%** (5 o bobl) o'n cydweithwyr yn 55 oed a throsodd, yr un fath â'r ffigur y llynedd; mae 60% (3 allan o 5 o bobl) o'r grŵp oed yma'n gweithio'n rhan amser.
- Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn cyflogi neb dros 65 oed.
- Mae **15%** o'n gweithlu yn byw gyda chyflwr iechyd hirdymor/anabledd; o gymharu â 22.5% o weithlu Cymru yn ei grynsyth.
- Ar 31 Mawrth 2025 roedd **87%** o'n gweithlu yn datgan bod ganddyn nhw ethnigrwydd gwyn (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol); gyda 61% yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn. Mae ein Tim presennol hefyd yn cynnwys ethnigrwydd America Ladin a Tsieineaidd.
- Mae **61%** o'r cyflogaion (14 allan o 23 o bobl) yn disgrifio'u sgiliau Cymraeg fel rhai rhugl, uwch neu ganolradd. Dywedodd 39% o'n gweithlu fod ganddyn nhw sgiliau lefel mynediad neu sylfaen yn yr iaith, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.
- Cyhoeddodd **48%** o'n gweithlu ymrwymiad i grefydd benodol (oedd yn cynnwys Cristnogaeth, Bwdhaeth ac un arall). Dywedodd 35% o'n cydweithwyr nad oes ganddynnt grefydd na chred, tra bod 17% yn dewis peidio â dweud. Mae ein Panel Oedolion Ymgynghorol yn cynnwys pobl o grefyddau Siciaeth ac Islam.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi cefnogi dau berson trwy feichiogrwydd ac absenoldeb mamolaeth.
- Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd, a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontractau yn cyrchu cyfleoedd dysgu a datblygu eleni. Yn ogystal â cheisiadau unigol i ddysgu, mae ein rhaglen ddatblygu i'r ffin cyfan yn parhau ac yn galluogi gweithwyr rhan amser, dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

4 Differynnau Rhywedd a Chyflog

Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer system gyflogau CPC yn dyrannu bandiau i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau yng nghyflogau swyddi yn gysylltiedig â gofynion penodol y swyddi, ac yn cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu bias yn y broses recriwtio.

O'r 19 o staff benywaidd oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2025, roedd 5 o gyflogaion, neu 26% o'r gweithlu benyw, yn cael eu cyflogi yn y tri band cyflog uchaf; o gymharu ag un gweithiwr gwryw, neu'n hytrach 25% o'r gweithlu gwryw. Mae'r differyn rhwng y ddau yn dal yn 1%, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Mae cydbwysedd rhywedd y Tim Rheoli ei hun bellach yn pwyso'n drwm i gyfeiriad aelodau benywaidd o staff, gan fod 5 cyfranogwr benyw ac 1 gwryw.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithlu yn dal yn staff benyw, a benyw sy'n llenwi swydd uchaf y sefydliad. Mae'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfartalog i weithiwr benyw ar 31 Mawrth 2025 wedi codi i tua £45,500k, o £43K y llynedd, ac mae cyflog cyfartalog gweithiwr gwryw wedi codi i tua £47,426k, o £45k y llynedd. Mae'r differyn rhwng y ddwy ryw

bron wedi diflannu eleni, gyda gweithwyr benyw yn ennill £174 y flwyddyn yn fwy na gweithwyr gwryw, o gymharu â gweithwyr gwryw yn ennill £2k yn fwy ar gyfartaledd y llynedd, a £6k yn fwy na gweithwyr benyw y flwyddyn flaenorol.

Dim ond aelodau staff benywaidd sydd yn y ddau fand cyflog isaf yn CPC, ac mae 7 o'r 9 gweithiwr rhan amser yn CPC yn fenywod.

O'r 19 aelod benyw o staff oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2025, mae 42% (8 o bobl) yn llenwi rolau rhan amser. Mae 25% o'r gweithlu gwryw yn gweithio'n rhan amser. Mae hynny'n cymharu â 50% o'r gweithlu gwryw oedd yn gweithio'n rhan amser y llynedd.




10

CRYNODEB O'R WYBODAETH ARIANNOL AR GYFER 2024-25

Yn dilyn ceir crynodeb o'r wybodaeth ariannol sydd yng Nghyfrifon Blynnyddol y Comisiynydd ar gyfer 2024-25. Mae set lawn o ddatganiadau ariannol i'w gweld ar wefan y Comisiynydd – www.complantcymru.org.uk


Bu'r cyfrifon yn destun archwiliad allanol; rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar y cyfrifon hyn. Er ei bod yn annibynnol ar y Llywodraeth, unig ffynhonnell incwm y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru. Cawsom **£1.667 miliwn** (2023-24: £1.720 miliwn) i dalu am ein sefydliad a'i holl weithgareddau yn 2024/25.



Ein gwariant yn 2024/25

Costau Staff:	2024-25 (£'000)	2023-24 (£'000)
Cyflogau	936	987
Yswiriant Gwladol	94	91
Pensiwn	257	244
Adenillion net yn sgîl secondiadau	-	(7)
Cyfanswm	1,287	1,315

Mae'r siart isod yn darlunio costau gweithgareddau gweithredu yn ôl categori'r gwariant. Mae hefyd yn cynnwys manylion dibrisiad heblaw arian parod.



11


BETH NESAF I NI YN 2025-26

Mae ein strategaeth tair blynedd yn cynnwys manylion ein holl obeithion ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydyn ni'n datblygu cynlluniau gweithredu blynyddol i helpu i gyflawni ein huchelgais, ond hefyd yn sicrhau ein bod yn cadw capasiti i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg bob blwyddyn.

Yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ein pedwar maes blaenoriaeth, sef tlodi, addysg ac anghenion dysgu ychwanegol, iechyd meddwl, a chydaddoldeb, rydyn ni'n bwriadu gweithio ar y themâu canlynol yn ystod y flwyddyn olaf o gyflwyno ein cynllun strategol cyfredol:

- * Cynnal ymarferiad gwrando, gan adolygu effeithiolrwydd strategaethau cyfranogiad lleol awdurdodau lleol ledled Cymru
- * Gweithio mewn partneriaeth ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar weithdrefn gwynion hwylus i blant yng Nghymru
- * Gwaith ar ddatblygu ein strategaeth tair blynedd newydd
- * Dal ati i estyn cwmpas ein hadnoddau 'Ffordd Gywir' a chefnogi llawer mwy o gyrff cyhoeddus i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith
- * Adolygu ein hanghenion llefy fel sefydliad
- * Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi ein galwadau allweddol ar bleidiau gwleidyddol fydd yn sefyll yn etholiadau'r Senedd 2026

Gallwch gadw mewn cysylltiad â'n holl waith trwy ein cylchlythyron misol, ein hadroddiadau effaith bob chwarter, a hefyd ar ein gwefan, o dan 'Ein Gwaith'.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales



Y Tîm Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



Mae hynny'n cynnwys hawl i gael addysg, hawl i'r gofal iechyd gorau posib, a hawl i fod yn ddiogel.

Os bydd angen help arnoch chi i gael mynediad i'ch hawliau, cysylltwch â ni ar. Rhadffôn: 0808 801 1000

Cliciwch yma i lawrlwytho copi o'n taflen **Tîm Cyngor a Chymorth Hawliau Plant**.

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Llewellyn
Parc Busnes Glan Yr Harbwr
Heol Yr Harbwr
Port Talbot, SA13 1SB

post@complantcymru.org.uk
01792 765600



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**